# cyflawni dros Gymru

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

Adroddiad Blynyddol 2002-03








# cynnwys


cefnogaeth genedlaethol a rhyngwladol 2
Cefnogwyr hael AOCC




cenhadaeth fyd-eang 4
Datganiad o ddelfrydau, nodau ac amcanion AOCC



cyfoeth y genedl 6
Rhagair y Llywydd



gorwelion rhyngwladol 10
Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol




perfformio ar ran y genedl 11
Perfformiad AOCC yn 2002-03



- Mynediad am ddim yn dal i lwyddo 11
- Ffigurau Ymwelwyr 2002-03 13
- Cyflwyno agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru 14


amrywiaeth cenedlaethol 16
Safleoedd a gweithgareddau amrywiol AOCC



safonau rhyngwladol 40
Gwasanaethau canolog AOCC




cydnabyddiaeth genedlaethol 48
Blwyddyn lwyddiannus i AOCC




Cymru'n un 51
Gweithio mewn partneriaeth - yng Nghymru a'r tu hwnt



cenedl o'r newydd 52
Adfywiad drwy dreftadaeth, diwylliant a hanes



codi cenedl 53
Buddsoddi £40m ledled Cymru



Llys a Chyngor AOCC 56

# cefnogaeth genedlaethol a rhyngwladol

Hoffai'r Llywydd a'r Cyngor ddiolch i'r canlynol ac i'r sawl nad ydynt am gael eu henwi am eu cefnogaeth hael i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn y cyfnod o 1 Ebrill 2002 i 31 Mawrth 2003.



### NODDWYR CORFFORAETHOL

Celf a Busnes Cymru
Barclays
Flight International
GE Aircraft Engine Services Cyf.
Legal & General
Redrow South Wales Cyf.
Gwestai Rocco Forte

### YMDDIRIEDOLAETHAU, SEFYDLIADAU A PHRIF GEFNOGWYR ERAILL

Bwrdd Croeso Cymru
Canolfan Astudiaethau Celf Brydeinig Paul Mellon
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Cyfeillion AOCC
Cyngor Sir Caerdydd
DYSG
Y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol
Sefydliad Lloyds TSB
Yr Undeb Ewropeaidd - ERDF ac EAGGF
Ymddiriedolaeth Anhysbys
Ymddiriedolaeth Derek Williams
Ymddiriedolaeth Elusennol G.C. Gibson
Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray
Ymddiriedolaeth Elusennol SR a PH Southall
Ymddiriedolaethau Garddwriaethol Stanley Smith (DU)

### CYFRANWYR UNIGOL YN RHOI DROS £250

3 Noddwr Anhysbys
Mr a Mrs D.H. Andrews
Mrs E.M. Austin
Leslie a Marian Beckett
David a Carole Burnett
Mrs Valerie Courage
Geraint Talfan Davies
Walter a Shael Dickie
G. ac E. Elias
D.T. Glan Evans
Lewis J. Evans
Miss Marion Evans
Mrs Christine Eynon
G. Wyn Howells
Roger a Kathy Farrance
Mr David Fine
Michael Griffiths
David Watson James OBE
Jane Jenkins
Miss K.P. Kernick
Y Gwir Anrh. Neil Kinnock
Dafydd Bowen Lewis
Gerry a Pat Long
L. Hefin Looker
Howard Moore
John a Doreen Morgan
Michael a Siân Phipps
Malcolm a Monica Porter
Mathew ac Angela Prichard
Yr Arglwydd Raglan
Dr Colin J. Richards
John Roberts
Colin a Patricia Rowland
Ms Rosemary Ryland
Mike a Mary Salter
Alan K.P. Smith
Dr P. M. Smith
John Sorotos
Jaci Stephen
John Foster Thomas
Roger G. Thomas
David a Christine Vokes
Mrs Meriel Watkins
Richard N. Weston
Dr W.B. Willott
Derek Woolley
Dr Hilary Yewlett


### CYFRANWYR UNIGOL YN RHOI DROS £1,000

Y Gwir Anrh. Iarll Plymouth, DL, FRSA
Is-iarll Windsor

### NODDWYR AM OES

Capt. Norman Lloyd Edwards
Enid Child
Nigel a Jane Gibbs
Christopher Gridley, Ysw.
Mrs Joan Gridley
Mr Wynford a Mrs Sigi Evans
Drs Peter a Margaret Elmes
R. Paul Russell
Dr Margaret Berwyn Jones
Anna Southall
Mr a Mrs R.A. Forster

**Os carech wybod rhagor am gefnogi gwaith AOCC, yna cysylltwch â'r Pennaeth Datblygu ar (029) 2057 3184 neu richard.tynen@aocc.ac.uk**





# cenhadaeth fyd-eang



Roedd yr arddangosfeydd yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol yn cynnwys *Star Trek: Federation Science* (uchod), oedd yn edrych ar y wyddoniaeth y tu ôl i'r gyfres deledu, ac *Ar Drywydd Deinosoriaid* (de) ar sail y gyfres deledu hynod boblogaidd

## Delfrydau'r 19eg ganrif…

Sefydlwyd AOCC fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru drwy Siarter Brenhinol ym 1907. Mae AOCC yn elusen gofrestredig annibynnol, ac am ei fod yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, daw ei gyllid craidd trwy gymhorthdal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ei weithgareddau craidd yn cynnwys datblygu ei gasgliadau, gofalu amdanynt, a chaniatáu mynediad iddynt er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter yn nodi bod hyn i'w gyflawni:

*yn bennaf drwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynoleg, sŵoleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru trwy gasglu, diogelu, egluro, cyflwyno a chyhoeddi gwrthrychau a phethau.*

## Amcanion yr 21ain ganrif

- Hybu dealltwriaeth a gwybodaeth eang am dreftadaeth a diwylliant Cymru a'i rôl yn natblygiad a hanes y byd.
- Darparu gwasanaeth amgueddfa cenedlaethol i Gymru sy'n ganolfan ragoriaeth ryngwladol, gan sicrhau'r gofal gorau posibl am ein casgliadau sy'n tyfu trwy'r amser ac y mae iddynt fri a phwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol.
- Annog gwaith ymchwil, astudiaeth a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau, y dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, trwy ein casgliadau a'n harbenigedd.
- Ysbrydoli cynulleidfa sy'n cynyddu'n barhaus i ymweld â'n hamgueddfeydd ardderchog, eu mwynhau, a chael budd o'u hadnoddau a'u cyfleusterau amrywiol.
- Datblygu ein holl adnoddau mewn ffordd ddoeth a'u defnyddio mewn ffordd greadigol ac effeithiol, gan sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posib a gwerth am arian.

## Meddwl yn strategol

Mae'r Cynllun Corfforaethol cyfredol yn dangos sut mae AOCC yn bwriadu mynd i'r afael â phum mater strategol yn unol â nifer o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Ennill cydnabyddiaeth ehangach o'i berthnasedd i anghenion cymdeithas gynhwysol.
- Ei gwneud yn haws i bobl gael gweld y casgliadau, a'r wybodaeth y maent yn ei chyfleu.
- Sicrhau y gall ofalu am y casgliadau a'r stadau a roddwyd yn ei ofal mewn ffordd briodol.
- Hyrwyddo arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol a datblygu diwylliant sefydliadol eangfrydig.
- Gwella'i sylfaen ariannol er mwyn galluogi iddo wireddu ei flaenoriaethau.

## Amrywiaeth cyfoethog

Yn ystod 2002-03 roedd AOCC yn cynnal amgueddfeydd ar chwe safle ledled Cymru yn uniongyrchol:


- Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ym Mharc Cathays, Caerdydd
- Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, Caerdydd
- Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerllion, Casnewydd
- Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, Gwynedd
- Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin
- Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru ym Mlaenafon, Torfaen

Yn ogystal, rydym wrthi'n datblygu partneriaethau newydd i reoli dau safle arall:

- Amgueddfa Rufeinig Segontium yng Nghaernarfon, Gwynedd
- Oriel Tŷ Turner ym Mhenarth, Bro Morgannwg

## Targedau ar gyfer y dyfodol

Ein nod yw 'dweud wrth Gymru am y byd ac wrth y byd am Gymru'. Trwy ddehongli a chymhwyso blaenoriaethau AOCC mewn ffyrdd cyfoes a bywiog, rydym yn profi y tu hwnt i unrhyw amheuaeth bod amgueddfeydd yn chwarae rhan ganolog mewn cymdeithas. Drwy helpu i gyflawni strategaethau blaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel Cynllun i Gymru, Cymru Greadigol a Chymru ar ei Hennill, mae AOCC yn helpu Cymru i fod yn gynhwysol, yn gynaliadwy, ac yn fwy cyfartal a gwybodus; i fod yn wlad ddiwylliedig, yn ystyr ehangaf y gair.



# cyfoeth y genedl

## Rhagair y Llywydd





Delwedd artist o'r amgueddfa diwydiant a môr newydd sy'n cael ei datblygu yn Abertawe ar hyn o bryd. Bydd yr Amgueddfa'n agor yn 2005

Delwedd: Melon Studios





Uchod: tynnu'r to dros iard Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Dre-fach Felindre. Caiff 'caead gwydr' modern ei godi yn ei le

De pellaf: symud y gwyddiau wrth glirio adeiladau'r felin

Ffotograffau gan Paul Avis

cyfoeth y genedl

Dyma'r tro cyntaf i mi gael y pleser o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Mae'r gweithgarwch a'r datblygiadau a gofnodir ynddo yn deyrnged i'm rhagflaenydd, Mathew Prichard, sydd wedi rhoi ac sy'n dal i roi gwasanaeth rhagorol i AOCC. Cafodd gymorth medrus gan Roger Thomas, yr Is-lywydd, y daeth ei dymor yntau yn y swydd i ben yn ystod y flwyddyn hefyd a chan y Trysorydd, Wyn Howells, sy'n parhau yn ei swydd, gan gynnig parhad a chyngor doeth yn y gwaith o reoli cyllid AOCC a llawer iawn mwy. Mae Dr Susan Davies, yr Is-lywydd newydd, a minnau yn gwerthfawrogi'r hyn yr ydym wedi'i etifeddu ganddynt a bydd yn her i ni barhau â'r hyn y maent hwy a'u rhagflaenwyr wedi ei gyflawni.

Daeth tymor Eirlys Pritchard Jones a Dr Nancy Edwards fel aelodau o'r Cyngor i ben hefyd. Gwnaeth y ddwy waith ardderchog fel Cadeiryddion Panel Amgueddfa Werin Cymru a Phanel Gogledd Cymru, yn y drefn honno, a gwerthfawrogir eu cyfraniad yn fawr. Gwaetha'r modd, oherwydd cyfrifoldebau busnes, bu rhaid i Dr Eleri Wyn Lewis roi'r gorau i fod yn aelod o'r Cyngor.

Os mai'r Cyngor sy'n rhoi cyfeiriad strategol i AOCC ac sy'n atebol yn y pen-draw fel Ymddiriedolwyr ei statws elusennol, y staff sy'n gorfod datblygu a chyflawni ein gwaith gan ddefnyddio'u doniau a'u dychymyg. Am gyfnod cymharol fyr y bu Anna Southall yn Gyfarwyddwr cyn ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn i fynd i wneud gwaith arall, ond fe lwyddodd i gyflawni llawer iawn yn ystod y cyfnod hwnnw. Ymysg ei champau, roedd ei chefnogaeth dros sicrhau dull mwy cydlynol o fawrygu ein treftadaeth ddiwydiannol ac arweiniodd hyn at y datblygiadau yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Dre-fach Felindre, ym Mhwll Mawr, Blaenafon ac, yn fwyaf arbennig, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Mae hon, amgueddfa diwydiant a môr newydd Cymru, yn cael ei chodi mewn partneriaeth unigryw â Dinas a Sir Abertawe.

Hi hefyd fu'n gyfrifol am gychwyn y gwaith o ad-drefnu graddfeydd staff er mwyn iddynt adlewyrchu arbenigeddau AOCC mewn ffordd fwy teg a hybu cyfleoedd cyfartal. Mae'r ffaith bod Adolygiad Pum Mlynedd y Cynulliad Cenedlaethol o waith AOCC wedi dod i'r casgliad bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda yn deyrnged i arweiniad Anna, ac mae'r ffaith iddi ennill y wobr Cymraes mewn Diwylliant yn deyrnged i'r cyfraniad a wnaeth at fywyd Cymru. Rydym wrth ein bodd ei bod yn dal i gadw cysylltiad â ni trwy ein Cynllun Noddwyr ac y bydd yn dal i ymwneud â'r datblygiadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Yn naturiol ddigon, pan fydd Cadeirydd a Phrif Weithredwr unrhyw sefydliad yn newid tua'r un pryd, gall problemau godi. Mae'r ffaith na ddigwyddodd hyn a bod yr holl weithgareddau a datblygiadau a gynlluniwyd wedi parhau ar garlam diolch i waith tawel, hyderus y Dirprwy Gyfarwyddwr, Dr Eurwyn Wiliam, a gamodd i'r adwy fel Cyfarwyddwr Dros Dro am dros chwe mis. Mawr yw dyled AOCC iddo. Cafodd gefnogaeth gadarn ei gyd-Gyfarwyddwyr a'r holl staff a diolchwn iddynt am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi bod yn ffodus i gael Michael Houlihan i olynu Anna Southall. Cychwynnodd yn swydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Ebrill. Mae ganddo dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad ym myd Amgueddfeydd, naw ohonynt fel Cyfarwyddwr, gan gynnwys y pum mlynedd diwethaf fel Prif Weithredwr Amgueddfeydd ac Orielau Gogledd Iwerddon. Fel casgliad o amgueddfeydd cenedlaethol, y rhain yw'r tebycaf i AOCC o ran eu natur yn y DU. Mae'n uchel ei barch am ei arbenigedd fel cyfarwyddwr amgueddfeydd ac mae ei ddull tawel, pwyllog ond ysgogol o weithredu yn golygu ei fod yn un da i'n harwain i'r ganrif nesaf yn ein hanes.

Mae AOCC yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) ac rydym yn dal i gael cefnogaeth gref i'n gwaith o du'r Cynulliad. Er enghraifft, roedd croeso arbennig i'r £3.5m a addawyd i ni, yn ychwanegol at y rhaglen wariant a gynlluniwyd gennym, ar gyfer cam cyntaf y gwaith o ehangu ein canolfan gasgliadau yn Nantgarw i fod yn Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol. Jenny Randerson AC oedd y Gweinidog oedd yn bennaf gyfrifol am gefnogaeth y Cynulliad i ni yn ystod y flwyddyn. Roedd hi'n bleser ymateb i'w hegni a'i brwdfrydedd, nid mewn perthynas â gweithgareddau AOCC yn unig, ond hefyd trwy gydweithio ag CCNC eraill mewn perthynas â Chymru'n Creu. Edrychwn ymlaen at gydweithio â'i holynydd, Alun Pugh AC.

Mae Gweinidogion eraill yn ymddiddori yn ein gweithgareddau hefyd. Ein prif nod, yn ôl y Siarter, yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd'. Mae ein harbenigedd yn y gwyddorau naturiol yn sylfaen dda i'r holl waith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo bioamrywiaeth. Rydym yn chwarae rhan flaenllaw yn y diwydiant twristiaeth. Mae hi wedi bod yn bleser i ni gyflwyno polisi mynediad am ddim Llywodraeth y Cynulliad gan roi profiadau diwylliannol newydd i rai aelodau o'r gymdeithas nad oeddent mewn sefyllfa i fanteisio ar ein gwasanaethau o'r blaen, a hynny er gwaethaf y pwysau ychwanegol y mae hyn wedi'i greu mewn rhai meysydd.

Rydym yn ddyledus hefyd i lawer o sefydliadau, noddwyr ac unigolion eraill am eu cymorth, ariannol ac arall. Gall fod yn annoeth enwi un o blith cynifer, maddeuwch i mi felly am gyfeirio at Gronfa Dreftadaeth y Loteri a roddodd grant o £10.7m i ni ym mis Gorffennaf at y gwaith o adeiladu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Dyma'r grant unigol mwyaf a roddwyd i unrhyw broject yng Nghymru ac, yn ogystal, mae'r Gronfa wedi bod yn eithriadol o gefnogol i rai o'n projectau eraill. Hoffwn dalu teyrnged hefyd i haelioni a gwaith tawel ond hanfodol ein Cyfeillion a'n Noddwyr. Heb eu cefnogaeth barhaus hwy, byddai pethau gryn dipyn yn feinach ar AOCC.

Mae ein hagenda'n llawn iawn. Rydym wrthi'n gwneud trefniadau i newid y ffordd y cawn ein llywodraethu. Yn dilyn argymhelliad yn yr Adolygiad Pum Mlynedd, ac ar ôl ymgynghori, penderfynwyd eglurhau cyfrifoldeb y Cyngor dros faterion AOCC a sefydlu system fwy effeithiol o ymgynghori â'r budd-ddeiliaid yn lle'r Llys. Mae angen trafodaethau pellach gyda'r Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â phenodi aelodau'r Cyngor, ac yn y pen draw, bydd rhaid disgrifio'r newidiadau mewn cais i'r Cyfrin

Gyngor am i ni newid ein Siarter. Yn y cyfamser, rydym eisoes wedi symud i gyfeiriad agor cyfarfodydd y Cyngor i'r cyhoedd, cynnal y cyfarfodydd mewn gwahanol rannau o Gymru, a phenodi aelodau i'r Cyngor mewn ffordd agored trwy hysbysebion a chyfweliadau.

Rydym yn rheoli rhaglen datblygu gwariant cyfalaf gwerth rhyw £43.5m ac, yn yr un modd â'r holl amgueddfeydd, rydym yn ymgodymu'n barhaus â'r problemau sydd ynghlwm wrth gynnal-a-chadw ein hadeiladau ac adnewyddu ein harddangosiadau. Ar ôl cynnal ymgynghoriad ar arddangos celfyddyd gain yng Nghymru, a dadansoddi'r canlyniadau, rhaid i ni symud yn awr i gyflwyno'r dewisiadau o ran sut i fynd ati i wella'r cyfleusterau. Ond nid mater syml o'r adeiladau sy'n digwydd bod gennym neu yr hoffem eu cael mo hyn. Rydym wedi ymrwymo i'r rhaglen bartneriaeth Cyfoeth Cymru Gyfan, a fydd yn mynd ag elfennau o'r casgliadau cenedlaethol sydd gennym i ganolfannau eraill ar hyd a lled Cymru. Byddwn yn ceisio'r adnoddau i wireddu hynny. Byddwn hefyd yn gwella'r gwasanaeth ar gyfer gweld y casgliadau trwy ddulliau electronig. Byddwn yn ceisio gwneud y wybodaeth sy'n cael ei chyfleu gan y casgliadau hyn yn berthnasol i anghenion ein cymunedau a byddwn yn ceisio adeiladu ar gynlluniau presennol fel Ar Dir Cyffredin. Mae hygyrchedd a pherthnasedd yn allweddol i'n hagwedd at y gwaith.

Mae'r agenda yn dipyn o her, ond mae elfennau hanfodol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn y fantol. Bydd ymwybyddiaeth ohonynt yn creu balchder a budd i bobl Cymru ac yn cyfoethogi ein statws ar lwyfan fyd-eang.

**Paul Loveluck**
**Llywydd, AOCC**



# gorwelion rhyngwladol

## Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Ers i mi ymuno ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Ebrill, rwyf wedi cael fy siomi ar yr ochr orau rhai frwdfrydedd ac ymroddiad y staff a'r modd y mae eu hegni yn llywio datblygiad rhai o gasgliadau gorau'r byd, y gofal a gânt a'r ffordd o gyfathrebu amdanynt.


Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gofnod o'r hyn a gyflawnwyd gan y staff, y Cyfarwyddwyr a'r Cyngor yn ogystal â bod yn deyrnged i Anna Southall, fy rhagflaenydd, a fu'n gyfrifol am dywys y sefydliad o nerth i nerth trwy ei harweiniad cadarn a phenderfynol. Hoffwn ddiolch yn bersonol i Dr Eurwyn Wiliam am ei waith fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro am ryw chwe mis ac am ei ddoethineb a'i sensitifrwydd o hyd fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gyfle i ddathlu'r hyn a wnaed yn ystod y flwyddyn a aeth heibio ac i sôn am y cyffro sydd yn y gwynt o feddwl am y datblygiadau cyfalaf sydd ar y gweill ac a ddaw i fwcwl rhwng 2003 a 2005. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau mawr ym Mhwll Mawr ym Mlaenafon, yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Dre-fach Felindre, yn y Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol yn Nantgarw ac yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

Mae hefyd yn ein cyfeirio tua'r dyfodol. Mae AOCC yn sefydliad o safon fyd-eang, sy'n eangfrydig ac yn gynhwysol. Ymhlith yr elfennau allweddol yn ein dyfodol bydd addysg, mynediad a phartneriaeth. Byddwn ni'n adeiladu ar y cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a ddaeth yn sgil polisi llwyddiannus Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig mynediad am ddim i'n holl safleoedd. Mae projectau blaengar fel y cynllun addysg, Ar Dir Cyffredin, a rhaglen bartneriaeth yr amgueddfeydd, Cyfoeth Cymru Gyfan, yn caniatáu i ragor o bobl ledled Cymru weld casgliadau AOCC.

Yn olaf, wrth i ni nesáu at ganmlwyddiant AOCC yn 2007, byddwn yn siŵr o ddechrau meddwl am y ganrif sydd o'n blaenau a sut y byddwn yn cyfrannu at lunio dyfodol ein cymuned a'n cenedl.

**Michael Houlihan**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, AOCC**



De: *Carica papaya* gan Berthe Hoola van Nooten, a welwyd yn yr arddangosfa *Crefft yn Blodeuo: Darluniau Botanegol gan Artistiaid o Fenywod* yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol o 5 Hydref 2002 i 5 Ionawr 2003


# perfformio ar ran y genedl

## Mynediad am ddim yn dal i lwyddo

Yn Ebrill 2001, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arian ychwanegol i alluogi AOCC i gyflwyno mynediad am ddim i bawb i'w holl safleoedd, gan arwain at gynnydd aruthrol o ryw 87.8% yn nifer yr ymwelwyr yn 2001-02 o'i gymharu â 2000-01. Cafwyd dros 1.43 miliwn o ymweliadau â safleoedd AOCC erbyn diwedd 2001-02, o'i gymharu â rhyw 765,000 yn 2000-01. Yn ystod 2002-03, cafwyd cyfanswm o 1.278 miliwn o ymweliadau – 67% yn fwy nag yn 2000-01, sef y flwyddyn olaf cyn cyflwyno mynediad am ddim i bawb yn Ebrill 2001. Roedd nifer yr ymweliadau yn 2002-03 11% yn uwch na'r targed o 1.15 miliwn a bennwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gwelwyd cynnydd o lai na 70% yn nifer yr ymwelwyr â'r amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol yn Lloegr oedd yn arfer codi tâl ers dileu'r taliadau mynediad yn Rhagfyr 2001. Dim ond 55% ar gyfartaledd oedd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd cenedlaethol Lloegr y tu allan i Lundain (sy'n cynnig cymhariaeth decach ag AOCC mae'n debyg) yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl cyflwyno mynediad am ddim yn Lloegr.

Mae'r ystadegau hyn yn awgrymu bod effaith gychwynnol mynediad am ddim wedi bod yn fwy a'i fod wedi para'n hirach yng Nghymru.


Friday, 4 October 2002

PAPUR CENEDLAETHOL

Big Welsh success story revealed today

# Families go museums mad as free entry doubles visits

Karen Price
Arts and Media Correspondent

Amazing success story

### YMWELIADAU Â SAFLEOEDD AOCC YN 2002-03

* Caewyd Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru ar gyfer gwaith ailddatblygu ar 1 Mawrth 2002

| | 2002-03 | | 2001-02 | 2000-01 | Amrywiad o'r targed | | cynnydd/gostyngiad | | cynnydd/gostyngiad | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgueddfa | gwir | targed | gwir | targed | | | ers 2001-02 | | ers 2000-01 | |
| | | | | | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol | 321,968 | 287,000 | 353,924 | 226,876 | 34,968 | 12.2 | -31,956 | -9.0 | 95,092 | 41.9 |
| Amgueddfa Werin Cymru | 623,529 | 590,000 | 694,899 | 321,810 | 33,529 | 5.7 | -71,370 | -10.3 | 301,719 | 93.8 |
| Amgueddfa'r Lleng Rufeinig | 65,495 | 58,000 | 70,160 | 58,997 | 7,495 | 12.9 | -4,665 | -6.6 | 6,498 | 11.0 |
| Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru | 0 * | 0 * | 12,576 | 9,036 | 0 | 0 | -12,576 | -100.0 | -9,036 | -100 |
| Amgueddfa Rufeinig Segontium | 10,149 | 11,000 | 12,565 | 8,810 | -851 | -7.7 | -2,416 | -19.2 | 1339 | 15.2 |
| Oriel Tŷ Turner | 10,829 | 9,000 | 11,706 | 10,554 | 1,829 | 20.3 | -877 | -7.5 | 275 | 2.6 |
| Amgueddfa Lechi Cymru | 130,201 | 100,000 | 144,408 | 53,890 | 30,201 | 30.2 | -14,207 | -9.8 | 76,311 | 141.6 |
| Pwll Mawr | 116,278 | 95,000 | 130,190 | 74,626 | 21,278 | 22.4 | -13,912 | -10.7 | 41652 | 55.8 |
| CYFANSWM | 1,278,449 | 1,150,000 | 1,430,428 | 764,599 | 128,449 | 11.17 | -151,979 | -10.62 | 513,850 | 67.2 |

Pobl ifanc o Broject Ieuenctid Tŷ Alison yng Ngwmparc, Rhondda Fawr, yn gweithio gyda phroject Ar Dir Cyffredin AOCC



**O fynediad am ddim i ddatblygu cynulleidfaoedd a chynhwysiad cymdeithasol**

Rhoddwyd cwestiynau ychwanegol yn Arolwg Ymwelwyr AOCC yn 2001 gyda'r nod o asesu ymwybyddiaeth am y polisi mynediad am ddim, asesu effaith mynediad am ddim a chanfod unrhyw newidiadau a gafwyd ym mhroffil ymwelwyr AOCC o ganlyniad i'r polisi. Mae Arolwg Ymwelwyr 2002 yn cadarnhau llawer o'r tueddiadau a'r themâu a welwyd yn Arolwg 2001 ac yn awgrymu bod effaith gymdeithasol cyflwyno mynediad am ddim wedi cael ei chynnal i raddau helaeth yn ystod ail flwyddyn y polisi.

Yn benodol, llwyddwyd i gynnal y cynnydd o 20% yng nghyfran y bobl oedd yn perthyn i ddosbarthiadau cymdeithasol C2DE ym mhob un o'r safleoedd (o 31% i 37% o'r holl ymwelwyr) yn ystod ail flwyddyn y polisi mynediad am ddim.

Trwy gyflwyno mynediad am ddim, llwyddwyd i gael gwared ar un o'r prif rwystrau oedd yn cadw pobl draw ac mae canfyddiadau Arolwg Ymwelwyr 2002 yn awgrymu ei fod wedi parhau i wneud cyfraniad bach ond mesuradwy at gynhwysiad cymdeithasol. Fodd bynnag, tan 2002-03, nid oedd AOCC erioed wedi cyflawni gwaith ymchwil cynhwysfawr i bobl nad ydynt yn ymweld â'i safleoedd. Rhoddodd ailgyflwyno mynediad am ddim hwb ychwanegol i'r gwaith ymchwil hwn; roedd y rhwystr ariannol wedi diflannu ond pa rwystrau eraill sy'n atal pobl rhag ymweld ag amgueddfeydd a defnyddio gwasanaethau amgueddfeydd yng Nghymru?

Er mwyn ein helpu ni i ateb y cwestiwn hwn, comisiynwyd y Ganolfan Ymchwil i Amgueddfeydd ac Orielau ym Mhrifysgol Caerlŷr i gyflawni gwaith ymchwil yn y gymuned a ddechreuwyd ym mis Mawrth 2002. Roedd tair rhan i'r gwaith, sef arolwg desg o'r gwaith ymchwil oedd ar gael eisoes, cyfres o grwpiau ffocws mewn tair ardal mewn gwahanol rannau o Gymru a chyfweliadau â gweithwyr cymunedol allweddol. Bwriedir defnyddio canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn i:

- ddatblygu cynulleidfaoedd newydd
- bwydo'r agenda o ran cynhwysiad cymdeithasol
- gwella a chyfrannu at strategaethau marchnata a chyfathrebu
- gwella a datblygu'r cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir i ymwelwyr
- creu partneriaethau a rhwydweithiau cynaliadwy.

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu oedd yn disgrifio ymateb AOCC i'r canfyddiadau i Gyngor AOCC ar 27 Mawrth 2003 a chaiff ei roi ar waith yn ystod 2003-04 a'r tu hwnt. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a chryfhau Polisi Mynediad AOCC, y Polisi Addysg, y Strategaeth Farchnata, y Strategaeth Gwasanaethau Ymwelwyr a'r Strategaeth Ddigwyddiadau.

Y farn gyffredinol yw mai cynlluniau hir-dymor yw'r prosesau ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd a chynhwysiad cymdeithasol: rydym wedi gosod targedau realistig y gellir eu cyflawni ar gyfer y flwyddyn 2003-04.

Yn y dyfodol, mae AOCC yn bwriadu adeiladu ar y gwaith o gasglu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth er mwyn dadansoddi, asesu, datblygu a gweithredu mesurau i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

## FFIGURAU PENNAWD 2002-03

| Dangosydd perfformiad | 2001-02 gwirioneddol | 2001-02 targed | 2002-03 gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| cyfanswm nifer yr ymwelwyr | 1,430,428 | 1,150,000 | 1,278,449 |
| nifer yr ymwelwyr mewn grwpiau addysgol | | | |
| *addysg ffurfiol* | 228,114 | 238,000 | 205,956 |
| *addysg anffurfiol* | 141,187 | 110,000 | 158,601 |
| % yr ymwelwyr cyffredinol o grwpiau difreintiedig | 37 | 38 | 37 |
| nifer yr ymweliadau â'r wefan | 481,193 | 600,000 | 541,265 |
| nifer yr ymweliadau â'r wefan a barodd dros 10 munud | 34,742 | 38,000 | 42,970 |
| nifer y tudalennau gwe yr edrychwyd arnynt | 1,831,221 | 2,000,000 | 1,995,973 |
| nifer yr ymholiadau am y casgliadau | 17,594 | 18,000 | 23,334 |
| nifer y projectau ymchwil | *dangosydd newydd* | 50 | 63 |
| nifer y bobl a fu mewn gweithgareddau oddi ar y safle e.e. darlithoedd | 122,315* | 170,000 | 153,184 |
| nifer y llefydd a gafodd eitemau ar fenthyg | 272 | 300 | 355 |

* mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ac Eisteddfod yr Urdd wedi cael eu canslo oherwydd argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau

'Oes, mae gan Gymru dipyn o ffordd i fynd mewn perthynas â'i wasanaethau cyhoeddus, swyddi, adfywiad economaidd ac addysg. Ond ni ddylai'r materion hyn ddifrïo llwyddiant anhygoel polisi mynediad am ddim y Cynulliad ar gyfer amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol Cymru.'

Western Mail, Hydref 2002

‘Nid pobl sy’n crwydro’n ddi-nod o gwmpas yr arddangosion i fradu amser ar brynhawn gwlyb mo’r rhain – ond plant ysgol, pensiynwyr, gwragedd tŷ, pobl ifanc, a mamau a thadau sy’n gweithio – yn buddsoddi yn hanes balch Cymru. Maen nhw’n dysgu ffeithiau gwerthfawr am ein >

# Cyflwyno agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rydym yn rhannu gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru, y corff sy'n ein noddi, sef gweithio i greu Cymru hyderus sy'n edrych i'r tu allan. Er mwyn cyflawni hynny, pennwyd y canlynol yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng nghynllun strategol y Cynulliad – Cynllun i Gymru 2001, sef hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Drwy ein casgliadau a'n harbenigedd, a thrwy hybu dysgu fel rhan hanfodol o ymweld ag amgueddfeydd, mae gennym ran hollbwysig i'w chwarae wrth ddarparu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes sydd eu hangen i gydategu'r gwaith o gyflawni'r agenda hon. Isod, ceir rhestr o enghreifftiau o sut rydym ni wedi cefnogi cynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002-03:

## “Datblygu’r wlad sy’n dysgu”

Bu i ni gwblhau project cymunedol – Ar Dir Cyffredin – gyda'r nod o roi sgiliau allweddol i oedolion ifanc sydd y tu allan i fyd addysg ffurfiol. Ariannwyd y project i raddau helaeth gan Gronfa Fynediad yr Amgueddfeydd ac Orielau (MGAF) ac roedd yn edrych ar agweddau newydd at waith ym maes amgueddfeydd a threftadaeth ymhlith pobl ifanc o dan amgylchiadau difreintiedig mewn pedair cymuned yng Nghymru.

Bu i ni gomisiynu y Ganolfan Ymchwil i Amgueddfeydd ac Orielau (RCMG) ym Mhrifysgol Caerlŷr i gyflawni project ymchwil sylweddol ymhlith pobl nad ydynt yn ymweld ag amgueddfeydd. Mae hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr o ran sut i ddileu y rhwystrau sy'n atal pobl rhag ymweld ag amgueddfeydd a dysgu. Mae hyn wedi dangos i ni beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith datblygu cynulleidfaoedd ac wedi ein galluogi i ni baratoi Cynllun Gweithredu Cynhwysiad Cymdeithasol erbyn Mawrth 2003.

## “Economi modern”

Bu i ni a'n partneriaid ddechrau'r gwaith o adeiladu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ar gost o £30m. Bydd y project yn creu 60 o swyddi parhaol yn yr Amgueddfa pan fydd yn agor yn 2005.

Dechreuwyd gwaith ar broject ailddatblygu gwerth £7m ym Mhwll Mawr, gan ddiogelu 55 o swyddi diolch i'r cyfraniad unigol mwyaf at adfywio Blaenafon fel Safle Treftadaeth Byd UNESCO.

Mae'r project gwerth £2m i ailddatblygu Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Dre-fach Felindre yn parhau a bydd hyn yn creu neu'n diogelu hyd at 25 o swyddi. Yn ogystal bydd y project yn helpu i gefnogi'r diwydiant gwlân Cymreig cyfoes drwy sefydlu cronfa ddata genedlaethol o batrymau a thrwy sicrhau bod yr unig waith gorffennu brethyn yng Nghymru sy'n dal i weithio yn dechrau gweithio eto. Mae'r tri phroject hyn mewn ardaloedd Amcan Un.

Amgueddfa Werin Cymru yw'r atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd yng Nghymru o bell ffordd, a denodd dros 650,000 o ymweliadau yn 2001-02. Enillodd wobr *‘Wow’ Factor* am y Profiad Gorau i Ymwelwyr yng Ngwobrau Twristiaeth Cymru a drefnwyd gan Fwrdd Croeso Cymru yn 2002. Amgueddfa Lechi Cymru – a welodd gynnydd o 168% mewn ymweliadau yn ystod 2001-02 – enillodd y dosbarth Naws am Le am greu awyrgylch Cymreig arbennig.

## "Lle rydym yn byw"

Mae gennym dros 3,000 o eitemau allan ar fenthyg i dros gant o ganolfannau cyhoeddus ledled Cymru eisoes. Lansiwyd Cyfoeth Cymru Gyfan fel cynllun partneriaeth o bwys i ddatblygu arddangosfeydd, gweithgareddau addysgol a gweithgareddau allestyn sy'n elwa ar gasgliadau ac arbenigedd AOCC. Lansiwyd cynlluniau peilot yn Llangefni a Wrecsam. Yn dilyn hynny, rydym wrthi'n ceisio codi ymwybyddiaeth am ein gwaith drwy gyrraedd cynulleidfaoedd mewn rhannau eraill o Gymru.

## "Hunaniaeth"

Yn ystod 2002-03 cafwyd dros 1.2 miliwn o ymweliadau, 11% yn fwy na'r targed o 1.15m a bennwyd ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn golygu y cafwyd 62% yn fwy o ymweliadau nag yn 2000-01, sef y flwyddyn olaf cyn cyflwyno mynediad am ddim i bawb ym mis Ebrill 2001.

Dim ond 55% ar gyfartaledd oedd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd cenedlaethol Lloegr y tu allan i Lundain (sy'n cynnig cymhariaeth decach ag AOCC) yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl cyflwyno mynediad am ddim yn Lloegr. Mae hyn yn dangos yn glir bod effaith y polisi mynediad am ddim i'r prif gasgliadau treftadaeth, celfyddydol a diwylliannol i bawb wedi bod yn fwy yng Nghymru a'i bod wedi para'n hirach.

Mae'r Amgueddfa Werin wedi dechrau project i greu Oriel Hanes Cymru newydd ar gyfer ei hymwelwyr. Bydd hyn yn eu helpu i wneud gwell defnydd o'r Amgueddfa a'i chasgliadau ac i gael gwell dealltwriaeth o hanes, diwylliant a hunaniaeth Cymru.

## "Llywodraeth fodern"

Bu i ni barhau i weithredu ar argymhellion Adolygiad Pum Mlynedd 2001 ac roedd y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau ein bod yn cadw at yr amserlenni. Bu i ni gyflwyno cynigion i Lywodraeth y Cynulliad oedd yn amlinellu newidiadau posibl i'r dull o lywodraethu AOCC. Os caiff y rhain eu gweithredu, byddant yn moderneiddio'r broses o wneud penderfyniadau yn AOCC ond yn dal i gynnwys y gwahanol grwpiau o fudd-ddeiliaid. Caiff y cynigion hyn eu datblygu dros y flwyddyn nesaf mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## "Hyrwyddo TGCh"

Bu i ni barhau i gefnogi Casglu'r Tlysau, project digideiddio TGCh Cymru-eang, trwy ganiatáu mynediad i wybodaeth am gasgliadau a rhoi cyngor proffesiynol ar ddatblygu projectau. Yn ogystal, bu i ni gyfrannu'n helaeth at sefydlu Culturenet Cymru, project a fydd yn parhau i adeiladu ar yr arbenigedd a'r safonau a ddatblygwyd gan broject Casglu'r Tlysau.

Prif amcanion Culturenet Cymru yw:

- datblygu gallu aelodau Cymru'n Creu i ddefnyddio technolegau ar lein yn eu gwasanaethau a'u cyfleusterau
- cyrraedd cynulleidfaoedd newydd trwy ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael
- hybu'r gwaith o greu a chynnal cynnwys digidol
- sicrhau arbedion maint trwy gydweithio'n effeithiol.

< diwylliant a'n gorffennol i'w rhannu gydag eraill, ac yn sicrhau nad yw gwreiddiau'r genedl yn cael eu colli wrth i ni naddu penodau newydd yn nyfodol esblygiad Cymru.'

Western Mail, Hydref 2002

# amrywiaeth cenedlaethol

Amrywiaeth ardderchog o gasgliadau, ymchwil, safleoedd a gweithgareddau i gyfoethogi bywydau pobl



*Cylch natur* (1944), Ceri Richards (1903-1971). Roedd *Ceri Richards: Themâu ac Amrywiadau* yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol o 27 Gorffennaf i 27 Hydref 2002

'Amgueddfa ragorol gydag amrywiaeth o arddangosfeydd at ddant oedolion a phlant fel ei gilydd.'
Ms R. Yagi, Norwich, Mehefin 2002

# Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol

Mae'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd, yn unigryw ymhlith amgueddfeydd cenedlaethol y DU oherwydd ei hamrywiaeth o arddangosiadau celfyddydol a gwyddonol. Yma mae'r Oriel Gelf Genedlaethol ac fe geir yma hefyd adrannau curadurol eraill a chanddynt fri rhyngwladol am eu gwaith ym meysydd Archaeoleg a Nwmismateg, Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol a Daeareg.

Mae gwneud AOG yn lle prysur, croesawgar a diddorol i ymweld ag ef yn gofyn am dipyn o waith. Mae digwyddiadau a mentrau allestyn yn creu cyfleoedd i bobl fwynhau llu o weithgareddau celfyddydol, gwyddonol, diwylliannol a chymunedol, sy'n golygu y gall pobl o bob math o gefndiroedd gwahanol fwynhau ymweld â'r lle.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi parhau ar yr ymateb i'r adroddiad Golygon y Dyfodol. Ymgynghoriad eang oedd hwn ar y cynlluniau ar gyfer arddangos y casgliad celf cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r gwaith sydd ar y gweill yn sgil hynny yn gosod y materion sy'n deillio o'n swyddogaeth fel 'Oriel Genedlaethol' ochr yn ochr â chyfleoedd ac anghenion eraill ar gyfer gwella'r gwaith o gyflwyno a dehongli'r holl ddisgyblaethau ar y safle. Mae llawer o'r gwaith hwn yn digwydd ochr yn ochr â'r gwaith o feithrin partneriaethau yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gan sicrhau bod y casgliadau a'r arbenigedd a geir ym mhrifddinas Cymru yn cyrraedd ymhell y tu hwnt i ffiniau Caerdydd.

## Celf

Yn ystod 2002-03, cwblhawyd arolwg cadwraeth dwy-flynedd o holl ddarluniau olew casgliad AOCC a briodolwyd i'r peintiwr tirluniau Richard Wilson (1714-1782). Ariannwyd yr arolwg yn llwyr gan Raglen Getty ac mae'r gwaith wedi datgelu llawer o wybodaeth newydd am ddulliau'r arlunydd o weithio. Yn ogystal, mae'r Adran Gelf wedi cyflawni gwaith ymchwil ar gyfer arddangosfa o bwys o waith yr arlunydd Cymreig o fri, Thomas Jones (1742-1803), ac wedi golygu catalog cynhwysfawr i gyd-fynd â'r arddangosfa honno a agorodd yn AOG ym mis Mai.

Roedd y gweithiau a brynwyd yn ystod 2002-03 yn cynnwys cryn dipyn o waith modern a chyfoes, e.e. gwaith gan ddau arlunydd blaenllaw o Brydain – *O Willesden Green, Hydref* (1991) gan Leon Kossoff (g.1926), a cherflun plastr a pholystyren, *Di-deitl (Hanes)* (2002) gan Rachel Whiteread (g. 1963). Cafwyd cymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams o Gaerdydd i brynu'r ddau ddarn. Cafwyd grant hael oddi wrth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol i brynu cerflun Whiteread hefyd.

Trosglwyddodd Cyngor Celfyddydau Cymru 450 o beintiadau, lluniadau, peintiadau, cerfluniau a darnau o grefftwaith i AOCC, sef rhan sylweddol o'i gasgliad o gelfyddyd fodern o'r blynyddoedd rhwng y 1950au a'r 1980au. Mae hyn yn golygu mai AOCC sydd â'r casgliad mwyaf o gelfyddyd Gymreig o ail hanner yr ugeinfed ganrif erbyn hyn.

Roeddem wrth ein bodd i gael gafael ar ddarlun pwysig gan Adam Pynacker (tua 1620-1673) am fod y casgliadau hanesyddol yn cynnwys llawer o dirluniau gan arlunwyr Prydeinig o'r 18fed ganrif y bu eu rhagflaenwyr o Ffrainc a'r Iseldiroedd yn y ganrif flaenorol yn ddylanwad mawr arnynt. Teithiodd Pynacker i Rufain yn ystod y 1640au, gan ymateb i dirwedd yr Eidal a golau cynnes ardal Rhufain. Prynwyd *Tirlun a Phorth Bwa* mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Cymru), a gyda chymorth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol. Daeth yn rhan o gasgliad gwych Arglwydd Cyntaf Penrhyn, Edward Douglas-Pennant, tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chaiff ei ddangos bob yn ail yn y De ac yn y Gogledd.

Sefydlwyd storfa ddarluniau newydd yn y Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw lle mae amodau gwell o lawer ar gyfer cadw'r peintiadau olew nad ydynt yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ac mae'n haws mynd atynt i'w gweld.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd casgliad cyfan yr Adran o ddarluniau olew a cherfluniau ar y we. Ceir yno restr o ryw 2,200 o weithiau ynghyd â lluniau digidol a thestun esboniadol i 450 ohonynt. Mae'r rhan hon o'r wefan, sydd eisoes yn cael ei defnyddio'n helaeth, hefyd yn dangos pa weithiau sy'n cael eu harddangos ar y pryd.

Mae arddangosfeydd yr Adran Gelf yn chwarae rhan ganolog yn rhaglen yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus. Ceir y manylion isod o dan **Digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus** (tudalen 24).

**Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol**
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP
(029) 2039 7951

Ar agor Mawrth-Sul a phob dydd Llun Gŵyl y Banc
10am-5pm

**Ymweliadau**

**2000-01:** 226,876 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 353,924
**2002-03:** 321,968


'Mae gan Gaerdydd gasgliad celf i gystadlu â Pharis!'
San Diego Union Tribune, Mehefin 2002




Uchod a de: delwedd a gynhyrchwyd ar gyfrifiadur ar sail penglog a gafwyd mewn siambr gladdu ym Mhenywyrlod, Powys, oedd yn rhan o'r arddangosfa *Ail-Greu: Delweddu ein Gorffennol*

Delwedd: Past Forward Cyf.
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Caerefrog

Isod: Edward Besly, Ceidwad Nwmismateg, a enillodd Medal John Sanford Saltus Cymdeithas Nwmismateg Prydain



# Archaeoleg a Nwmismateg

Enillodd yr Adran hon nifer o wobrau pwysig i gydnabod safon uchel ei gwaith. Cyflwynwyd Medal John Sanford Saltus i Edward Besly gan Gymdeithas Nwmismateg Prydain ac enillodd *Vikings in Wales: an Archaeological Quest (Y Llychlynwyr yng Nghymru: Ymchwil Archaeolegol)* gan Dr Mark Redknap Wobr Llyfr Archaeolegol yr Ancient & Medieval History Book Club yn seremoni Gwobrau Archaeolegol Prydain 2002. Ceir rhagor o fanylion am y gwobrau hyn yn adran wobrau'r Adroddiad hwn (gweler tud.48).

Nod yr arddangosfa *Ail-Greu: Delweddu ein Gorffennol* (Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Ebrill - Medi 2002), a ddatblygwyd ar y cyd â Cadw, oedd dangos sut y mae ail-greu hanesyddol wedi datblygu dros amser, gan gyfeirio at y cydweithio a fu rhwng yr artist, yr hanesydd, yr archaeolegydd, yr anthropolegydd, y gwyddonydd fforensig a'r ecolegydd. Ar ôl cyfnod llwyddiannus iawn yng Nghaerdydd, symudodd yr arddangosfa i Oriel Ynys Môn, Llangefni, o dan y cynllun Cyfoeth Cymru Gyfan a ariennir gan y Cynulliad. Bu yno rhwng 7 Mawrth a 7 Ebrill 2003. Cyhoeddwyd llyfr llawn lluniau oedd yn ymhelaethu ar thema'r arddangosfa ac yn rhannu ei theitl, ar y cyd gan AOCC a Cadw, ac fe'i lansiwyd yn agoriad yr arddangosfa yn Llangefni.


Mae AOCC yn rhoi blaenoriaeth uchel i ofalu am y casgliadau a ymddiriedwyd i'n gofal. Mae gwaith curadurol a dogfennu hefyd yn hwyluso mynediad ehangach at y casgliadau. Gwnaeth yr Adran gynnydd ardderchog yn 2002-03, pan cafodd 30,904 yn rhagor o arteffactau eu dogfennu a'u hailbecynnu. Erbyn hyn, mae o leiaf 68.7% o'r casgliad archaeolegol a gedwir yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol wedi'i ddogfennu hyd lefel rhestr eiddo neu'n uwch ac mae 72.4% o'r casgliad o ddarnau arian a medalau wedi'i ddogfennu.

Mae AOCC yn chwarae rhan hollbwysig yng ngweithrediad y Ddeddf Trysor, gan roi cyngor arbenigol i grwneriaid. Yn 2002-03 dyfarnwyd bod un ar ddeg o ddarganfyddiadau yn drysorau, yn eu plith gelc arbennig o geiniogau arian a ganfuwyd ger y Fenni, Sir Fynwy. Roedd y celc yn cynnwys 199 o geiniogau arian o gyfnod y brenin Eingl-Sacsonaidd Edward Gyffeswr (1042-1066) a Gwilym Goncwerwr (1066-1087). Y celc hwn, a gladdwyd neu a gollwyd ar ôl tua 1080 OC, yw'r celc arwyddocaol cyntaf o'r cyfnod Normanaidd cynnar i gael ei gofnodi yng Nghymru. Yn ogystal, cafodd ymwelwyr gyfle i weld Trysor yr As Fawr mewn arddangosfa dros dro yn yr Oriel Arian a Medalau. Cafodd y celc hwn o denarii arian Rhufeinig o'r ail ganrif OC ei ddynodi'n drysor yn 2001 a rhoddwyd sylw iddo yn y gyfres deledu *Treasure House* (gweler isod).

Mae'r Cynllun Hynafion Cludadwy yng Nghymru, sy'n annog pobl sy'n defnyddio dyfeisiau canfod metel ac aelodau eraill o'r cyhoedd i roi gwybod am eitemau archaeolegol y maent yn dod o hyd iddynt, yn cyfrannu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o orffennol Cymru. Cafwyd nifer o ddarganfyddiadau nodedig, gan gynnwys mwy o lawer na'r disgwyl o waith metel o'r Oes Efydd Ddiweddar yn ne-ddwyrain Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, canfuwyd pum celc ym Mro Morgannwg a dau arall yn Nhorfaen a Sir Fynwy. Cafodd y rhan fwyaf o'r darnau metel hyn eu celu yn ystod cyfnod Ewart Park yn yr Oes Efydd Ddiweddar (tua 950-750 CC). Canfuwyd cyfanswm o bron 250 o ddarnau o waith metel a chânt eu hastudio'n fanwl er mwyn creu synthesis rhanbarthol o waith metel o'r Oes Efydd Ddiweddar a'r drefn ar gyfer eu celu.

Cafodd yr Adran gryn sylw yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y gyfres ddogfen *Treasure House* a ddarlledwyd ar BBC 2 Cymru. Bu'r staff yn cyfrannu hefyd at y gyfres boblogaidd *Reading the Ruins* ar BBC 1 Cymru oedd yn adrodd hanes archaeolegol Cymru, a *Talking Stones*, a ddangoswyd ar ITV Cymru, oedd yn adrodd y straeon difyr sydd y tu ôl i rai cerrig beddi.



Ail-gread o'r olion dynol a gafwyd yn Llanbedrgoch, Ynys Môn. Roedd y darlun hwn yn rhan o'r arddangosfa *Ail-Greu: Delweddu ein Gorffennol* a'r llyfr oedd yn cyd-fynd â hi

Darlun gan Tony Daly

**amrywiaeth cenedlaethol**



Gwelwyd Heboglys Eryri, un o blanhigion mwyaf prin y byd, y tro diwethaf bron i hanner can mlynedd yn ôl. Fe'i ailddarganfuwyd yn Eryri a chaiff ei hadau eu casglu a'u meithrin yng Ngerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru

# Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol

Ceir casgliadau amrywiol iawn yn yr Adran Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol (neu 'BioSyb'). Maent yn amrywio o fwsoglau a rhedyn i gregyn malwod, pryfetach a mwydod y môr, i enwi ond ychydig. Bob blwyddyn, daw pob math o ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd, ymchwilwyr arbenigol o bedwar ban byd a chyrff masnachol neu rai ym maes iechyd y cyhoedd. Mae llawer o bobl yn ffonio a rhai'n anfon pryfetach wedi'u gwasgu trwy'r post yn y gobaith y cânt wybod beth ydynt. Ceir hefyd ddarnau o gynrhon neu chwilod a ganfuwyd mewn bwydydd, ceisiadau am arolygon bioamrywiaeth neu geisiadau i ymddangos fel tystion arbenigol mewn achosion llys.

Os mai ein casgliadau yw'r sylfaen yr ydym yn gweithio arni, arbenigedd y staff sy'n defnyddio'r casgliadau yw ein hadnodd pwysicaf. Y *Natural History Museum* yn Llundain yw'r unig Amgueddfa yn y Deyrnas Unedig â mwy o fywydegwyr cyfundrefnol nag AOCC.

Fodd bynnag, mae arbenigedd fel hyn yn prinhau ym Mhrydain ac, wrth i bobl ymddeol, mae'n mynd yn anos cael gwybodaeth bwysig. Yr un pryd, mae angen mwy a mwy o dystiolaeth ffeithiol am ddosbarthiad a phresenoldeb rhywogaethau fel y gellir paratoi cynlluniau gweithredu ym maes cadwraeth natur. O'r herwydd, mae'n ddyletswydd ac yn gyfrifoldeb arnom i drosglwyddo ein gwybodaeth arbenigol i eraill a hyfforddi cenhedlaeth newydd o gofnodwyr a thacsonomyddion.

Mae'n dod yn fwyfwy pwysig i'r Adran bod ecolegwyr a swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yn cael eu hyfforddi i adnabod rhywogaethau prin neu gritigol, a bod cofnodwyr lleol yn cael eu hyfforddi i adnabod grwpiau 'newydd' ac yn dysgu mwy am adnabod rhywogaethau critigol.

Roeddem yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi £20,000 yn ychwanegol i AOCC yn 2002-03 er mwyn i staff BioSyB hyfforddi ecolegwyr llywodraeth leol ac eraill i adnabod planhigion ac anifeiliaid prin yng Nghymru sy'n cael eu rhestru o dan Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad.

Yn ogystal â hyfforddi mae'r staff yn paratoi canllawiau adnabod arbenigol, ac eleni mae'r Adran wedi cwblhau canllawiau ar gyfer cocos yr afon y mae'n anodd eu dosbarthu yn y DU a molysgiaid dwygragennog morol ym Môr y Gogledd. Yn ogystal â'r hyfforddiant a noddir gan y Cynulliad, byddwn yn cynhyrchu casgliad cynhwysfawr o ddwy gyfrol o daflenni data ar rywogaethau critigol.

Mae partneriaethau a chyd-brojectau yn dal yn rhan bwysig o waith BioSyB. Eleni, mewn cydweithrediad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru, llwyddwyd i ailddarganfod Heboglys Eryri (*Hieracium snowdoniense*), a welwyd y tro diwethaf yn Eryri bron i hanner canrif yn ôl a sy'n un o blanhigion prinnaf y byd. Mewn partneriaeth â'r Cynghorau Bwrdeistref Sirol ac Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'r Adran wedi parhau i ddarparu gwybodaeth am byllau yn y De.

Yn ogystal, rydym wedi adnabod dros 20,000 o bryfed unigol ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi cymryd rhan mewn arolwg o greaduriaid di-asgwrn-cefn mewn ffosydd fel rhan o gynllun i fesur ansawdd dŵr ac wedi cychwyn partneriaeth â Sefydliad Gwy i astudio effeithiau calchu cywirol ar Afon Gwy a'i hisafonydd.

Dramor, rydym ni wedi dal ati i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu casgliadau ac arbenigedd lleol yn Galapagos, Tansanïa a Papwa Gini Newydd, yn ogystal â gwneud gwaith maes yn y gwledydd hyn.

Mae'r projectau hyn i gyd yn dangos bod gan AOCC sgiliau a gwybodaeth arbenigol sy'n golygu ei fod mewn sefyllfa ddelfrydol i ddylanwadu ar bolisi ac arferion bioamrywiaeth yng Nghymru, ac i gefnogi ymroddiad y DU i hyrwyddo bioamrywiaeth yn y gwledydd sy'n datblygu.







# Daeareg

Yn Ebrill 2002, daeth yr Adran Ddaeareg, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Cadw ynghyd i gynnal seminar bwysig ar y defnydd a wneir o Gerrig yng Nghymru at ddibenion adeiladu a pheirianneg. Daeth dros 120 o bobl o Brydain a thramor i'r seminar lle'r oedd y Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros yr Amgylchedd, Sue Essex AC, yn annerch yn y sesiwn olaf.


Un o ganlyniadau'r seminar oedd sefydlu Fforwm Cerrig Cymru i fonitro a chydgysylltu materion sy'n codi. Bydd staff AOCC yn chwarae rhan flaenllaw er mwyn 'hybu dealltwriaeth o'r defnydd o gerrig naturiol fel deunydd addas yn yr amgylchedd Cymreig'. O ganlyniad i gynlluniau i ychwanegu at ein casgliadau presennol o'r deunyddiau hyn, bydd yr Adran yn chwarae rhan gynyddol fel archif ymgynghorol ar gyfer asesu'r defnydd o gerrig naturiol mewn projectau adeiladu.

Cynllun sylweddol arall oedd cyhoeddi cyfres o astudiaethau achos a threfniadau adfer i ymdrin â thirlithriadau a rheoli tirlithriadau yng ngogledd Cymru. Cafodd y rhaglen hon ei hariannu a'i noddi gan gonsortiwm o gwmnïau geo-beirianyddol a sefydliadau sy'n ymwneud â'r math hwn o waith yn yr ardal. Lansiwyd y llyfr mewn seminar arbennig yn Abergele ym mis Medi 2002.

O ran ein rhaglenni mwy traddodiadol sy'n ymwneud â'n casgliadau a'n gwaith ymchwil, mae dwy eitem yn haeddu sylw arbennig. Yn gyntaf, roedd cyhoeddiad pwysig gan AOCC oedd yn cynnwys cymhariaeth gynhwysfawr o olyniaethau creigiau Is-Silwraidd (Telychaidd, Cyfres Llanymddyfri) a ffawna ffosiledig ledled Ynysoedd Prydain a Ysgafell Yangtze yn ne Tsieina.

Dyma enghraifft ardderchog o bwysigrwydd olyniaethau daearegol Is-Baleosöig a ddiffiniwyd yng Nghymru yn wreiddiol ac o bwysigrwydd cenedlaethol gwaith fel hyn yn AOCC. Cafwyd cyllid cychwynnol oddi wrth y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain ac Academi Genedlaethol Gwyddorau Tsieina ar gyfer astudiaeth ar y cyd gan dîm o ddaearegwyr o Brydain a Tsieina.

Uchafbwynt arall oedd caffael casgliad mwynau J.S. Mason, sy'n cynnwys bron i 700 o sbesimenau, y rhan fwyaf ohonynt o Gymru. Roedd Mr Mason wedi gwneud cyfraniadau pwysig at waith yr Adran Ddaeareg o'r blaen wrth gyflawni'r prif waith arolygu yn ein Project Minescan, ac mae cael ei gasgliad preifat ef yn ein meddiant yn golygu y gallwn sicrhau mai hwn fydd y casgliad pwysicaf o fwynau Cymreig.



Uchod: crisialau glas bychain bach o'r mwyn *connellite* yn gorchuddio crisialau cwprit coch o Barc Lodge yn y Canlbarth. Mae connellite yn fwyn cymharol brin yng Nghymru.
Chwith: crisial bychan bach hecsagonal perffaith o'r mwyn *susannite*. Ffurfiwyd y mwyn, a gafwyd ym Mwynglawdd Frongoch yn y Canolbarth, gan ocsideddio galena, sef prif fwyn plwm. Ymddangosodd y sbesimenau hyn yn llyfryn llwyddiannus AOCC *Mineralogy of Wales*, a daethant i'n meddiant yn ddiweddar oddi wrth J.S. Mason

**amrywiaeth cenedlaethol**



*Lychees* gan Dale Evans, a welwyd yn yr arddangosfa *Crefft yn Blodeuo: Darluniau Botanegol gan Artistiaid o Fenywod*

# Digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus

Yn 2002-03, cafwyd dros 175,000 o ymwelwyr i'n harddangosfeydd dros dro; roedd y rhain yn cynnwys arddangosfeydd teithiol ar gyfer y teulu cyfan – *Ar Drywydd Deinosoriaid* a *Star Trek: Federation Science* – a phrojectau a drefnwyd ac a gynhyrchwyd gan AOCC fel *Ceri Richards: Themâu ac Amrywiadau, Crefft yn Blodeuo: Darluniau Botanegol* a *Cedric Morris a Lett Haines: Dysgu, Celfyddyd a Bywyd*.

Gwelir dylanwad Ceri Richards ar artistiaid hyd heddiw – i gydredeg â *Themâu ac Amrywiadau* cafwyd arddangosfa o'r enw *À Propos Ceri Richards*, gan grŵp arlunwyr Ysbryd/Spirit, oedd yn rhoi ymateb cyfoes i'w waith.

Ffrwyth cydweithio â phartneriaid yw llawer o'n gwaith. Cafwyd cyfle ardderchog i gydweithio â'r Amgueddfa Brydeinig a Cadw ar *Ail-greu: Delweddu ein Gorffennol*. Hwn oedd y project cyntaf yn ein 'partneriaeth' newydd â'r Amgueddfa Brydeinig ond rydym yn cydweithio â Cadw yn weddol gyson. Cafwyd cyfleoedd newydd i gydweithio hefyd ar yr arddangosfa *Celfyddyd yr Alltud: Fflandrys, Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf*, gyda chydweithwyr yn Amgueddfa Celfyddyd Gain Ghent a Sefydliad Hannema de Stueurs yn Heino yn yr Iseldiroedd y tro hwn.

Roedd *Celfyddyd yr Alltud* yn adrodd hanes grŵp o artistiaid o Wlad Belg a ddaeth yn ffoaduriaid i Gymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, lle cawsant nawdd y Chwiorydd Davies – Gwendoline a Margaret. Bu'r arddangosfa hon yng Ngwlad Belg ac yn yr Iseldiroedd yn ogystal ag yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ac fe gyrhaeddodd catalog arloesol yr arddangosfa rhestr fer Gwobr William Berger am ragoriaeth ym maes Hanes Celfyddyd Prydain.

Cynhaliwyd dros gant o ddigwyddiadau cyhoeddus dros y flwyddyn, o sgyrsiau am ail-greu cerbyd o'r Oes Haearn i deithiau maes i gasglu ffosilau; o weithdai darlunio botanegol i sesiynau hwyl i'r teulu cyfan yn y planetariwm. Roedd yn braf gweld y sesiynau cerddoriaeth siambr proffesiynol yn ailddechrau yn Theatr Reardon Smith mewn partneriaeth â Chwpan Aur. Mae'r partneriaethau cerddorol eraill, fel y Cyngherddau yn yr Orielau Celf gyda grwpiau blaenllaw o'r Coleg Cerdd a Drama Brenhinol a'r Datganiadau Misol ar yr Organ gan Cardiff Organ Events yn boblogaidd o hyd. Yn ogystal, mae'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol yn mwynhau cymryd rhan mewn cynlluniau Prydeinig fel Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth, Penwythnos Cenedlaethol Archaeoleg, Mis yr Amgueddfeydd ac Orielau a'r Darlun Mawr.

Er eu bod yn fwy di-sylw, mae llawer o'r datblygiadau pwysicaf yn yr Amgueddfa yn gadael eu marc. Mae'r gwaith o ddehongli arddangosfeydd dros dro yn AOCC wedi cael hwb wrth i lawer o Gynorthwywyr yr Amgueddfa ddechrau gwneud gwaith esbonwyr a hwyluswyr. Erbyn hyn, mae'r Cynorthwywyr hyn yn gwneud mwy o waith croesawu ac esbonio mewn gweithgareddau ac arddangosfeydd cyhoeddus, ynghyd â'r gwaith diogelwch sydd yr un mor werthfawr ac angenrheidiol.





# Amgueddfa Werin Cymru

**Amgueddfa Werin Cymru**
Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
(029) 2057 3500

Ar agor bob dydd 10am-5pm

**Ymweliadau**

**2000-01:** 321,810 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 694,899
**2002-03:** 623,529

**amrywiaeth cenedlaethol**

Mae Amgueddfa Werin Cymru yn un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop ac yn un o bedair Amgueddfa Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol AOCC. Dyma lle mae'r adran guradurol fwyaf, sef Hanes Cymdeithasol a Diwylliannol. Ochr yn ochr â phentref Celtaidd wedi'i ail-greu, ceir Tŷ ar gyfer y Dyfodol, a gall ymwelwyr grwydro'r safle a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn dros ddeugain o adeiladau o wahanol gyfnodau a gasglwyd o bob rhan o Gymru.

Yn 2002-03, parhawyd â'r gwaith o ailgodi Eglwys Llandeilo Tal-y-bont ac, erbyn hyn, mae'r gwaith cerrig a rhannau o'r to wedi'u cwblhau. Un o ganlyniadau'r polisi o ddangos prosesau adeiladu i'r cyhoedd, ynghyd â'r cynnydd syfrdanol yn nifer yr ymwelwyr, yw bod yr amser a roddir i ddehongli yn arafu'r gwaith adeiladu yn fawr. Serch hynny, mae hyn yn bris sy'n werth ei dalu gan fod i'r gweithgareddau dehongli werth addysgol ac mae'r cyhoedd yn eu mwynhau'n fawr. Dathlwyd Dydd Teilo Sant (9 Chwefror 2003) trwy gynnal nifer o weithgareddau oedd yn canolbwyntio ar y gwaith ailadeiladu, e.e. teithiau tywys o amgylch yr adeilad a gweithdy barddoniaeth i blant gyda Myrddin ap Dafydd ac Iwan Llwyd o dan nawdd yr Academi Gymreig.

Un datblygiad braf ac annisgwyl oedd cael rhodd o feudy bychan o Gae Adda, Waunfawr, Gwynedd. Cafodd ei adeiladu o gerrig mynydd ac mae'n debyg i'r adeilad a fu unwaith yn sefyll ger Llainfadyn, y bwthyn a ddaeth yn wreiddiol o Rostryfan cyfagos. Dyma'r tro cyntaf i'r Amgueddfa gael cynnig adeilad amaethyddol sy'n addas i'w godi ger un o'n tai presennol. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno darlun mwy cyflawn o fywyd amaethyddol y cyfnod.

Tynnwyd yr adeilad i lawr yn yr Hydref. Roedd y project yn enghraifft ardderchog o gydweithio cymunedol am y bu disgyblion o'r ysgol gynradd leol a staff Antur Waunfawr, y cwmni arloesol sy'n cynnig hyfforddiant a gwaith i bobl ag anawsterau dysgu, yn dilyn hynt y gwaith. Disgwylir y bydd y beudy yn ei le yn haf 2003.

Yn ogystal, dechreuwyd adfer yr Ardd Eidalaidd, sef darn o Erddi'r Castell nad oedd yn rhan o'r rhodd wreiddiol gan Iarll Plymouth. Plannwyd yr ardd yn wreiddiol ym mlynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif ond cafodd ei hesgeuluso ers dros drigain mlynedd ac roedd wedi tyfu'n wyllt ac adfeilio pan ddaeth i feddiant yr Amgueddfa tua chanol y 1980au. Roedd rhan gyntaf y project yn canolbwyntio ar y gwaith





‘Diddorol iawn! Rwy’n hoffi’r adran gwisgoedd a chelf orau. Mae gymaint i’w wneud mae angen mwy na diwrnod!’

Tamara-Jade Kaz, Talbot Heath School, Bournemouth, Gorffennaf 2002


Beudy Cae Adda, a ddatgymalwyd ac a ailgodwyd yn AWC gan staff AWC a ALC






Uchod: yr Ardd Eidalaidd ar ei newydd wedd

De: cafodd y Tŷ Cychod a'r Tŷ Rhwydi eu hail-ddylunio a'i hail-agor gydag arddangosfeydd newydd sbon





tirlunio ond bu'n rhaid gohirio'r gwaith plannu terfynol a'r agoriad swyddogol tan wanwyn 2003. Noddwyd y project gan Barclays ac fe gafodd sylw yn y gyfres *Hidden Gardens* ar BBC2 ym mis Tachwedd 2002. Roedd y llyfr a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r gyfres yn sôn am yr ardd hefyd.

Cafodd y Tŷ ar gyfer y Dyfodol ragor o lwyddiant yn ystod y flwyddyn, gan ennill Gwobr Dylunio Adeiladau Cymru gan Gymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru. Dechreuwyd ar y gwaith o ailddehongli'r tu mewn i'r tŷ gan dalu sylw i adeiladwaith a pherfformiad y tŷ yn hytrach na chreu tŷ wedi'i ddodrefnu. Noddwyd llawer o'r gwaith hwn gan Sefydliad Ernest Cook. Yn y pen draw, bydd y Tŷ yn adnodd addysgol i fwydo trafodaeth am faterion cynaliadwyedd ac addysg amgylcheddol.

Bu nifer yr ymwelwyr yn eithriadol o uchel trwy'r flwyddyn. Torrwyd record ym mis Awst pan gafwyd 126,000 o ymwelwyr, sef dros 4,000 o bobl bob dydd ar gyfartaledd. Oherwydd llwyddiant aruthrol y cynllun mynediad am ddim, bu'n rhaid newid strategaeth ddigwyddiadau'r Amgueddfa a chynnal mwy o ddigwyddiadau bach yn hytrach nag ychydig o ddigwyddiadau mawr fel yr Ŵyl Fai a oedd yn denu mwy o bobl nag y gellid ymdopi â nhw.

Erbyn hyn trefnir digwyddiadau gyda'r nod o ddenu rhagor o bobl yn ystod y misoedd tawel a cheisio sicrhau nad oes gormod o bobl yn yr adeiladau mwyaf poblogaidd ar yr amserau prysuraf. Bu digwyddiadau cymharol newydd fel dathliadau Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi yn boblogaidd iawn gan ddenu dros 2,000 a 3,000 o ymwelwyr, yn y drefn honno, yn ystod misoedd Ionawr a Mawrth sy'n weddol dawel fel rheol. Daeth bron i 8,000 o ymwelwyr i ŵyl amgylcheddol AmgylcHwyl, a gynhaliwyd ym mis Mehefin ac roedd y ddau achlysur lle codwyd tâl mynediad, sef dathliadau Calan Gaeaf a'r Ffair Nadolig, mor boblogaidd ag erioed.

Ym mis Ebrill 2002 ailagorwyd y Tŷ Rhwydi a'r Tŷ Cychod ar ôl llifogydd difaol y gaeaf blaenorol, gyda'r arddangosfa o gasgliadau pysgota wedi'i hailwampio'n llwyr. Cynhaliwyd nifer o arddangosfeydd dros dro hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys arddangosfa ffotograffig, *Koyo Hosoe: Y Japan Anghyfarwydd*, arddangosfa gyfnewid a drefnwyd gan yr amgueddfa sy'n bartner i ni yn Rhaglawiaeth Gifu, Japan. Wedyn cafwyd dwy arddangosfa decstilau, *Ffibr, Gwehyddu a Blanced* gan fyfyrwyr Gwaith Tecstilau Cyfoes UWIC a *Cwiltiau Cymreig o Gasgliad Jen Jones*.




Orennau'n tyfu unwaith eto yn yr Ardd Eidalaidd



Daeth Dafydd Wigley AC i ymweld ag ALC ar ei phen-blwydd yn 30 ym mis Mai

Gwaith adfer ar Una, locomotif stêm ALC





# Amgueddfa Lechi Cymru

Yn Llanberis, mae hanes y diwydiant llechi yn dod yn fyw i ymwelwyr wrth iddynt wylio crefftwyr medrus yn hollti ac yn naddu'r llechi â llaw neu weld yr olwyn ddŵr weithiol fwyaf ar dir mawr Prydain. Yn ogystal, mae'r Amgueddfa'n rhoi cipolwg unigryw i ymwelwyr o fywyd y chwarelwyr a'u teuluoedd yn Rhifau 1-4 Fron Haul – rhes o dai chwarelwyr a symudwyd i'r Amgueddfa o'i safle gwreiddiol yn Nhanygrisiau ac a ddodrefnwyd yn null tri chyfnod hanesyddol gwahanol.

Yn 2002-03, llwyddwyd i gynnal y cynnydd aruthrol yn nifer yr ymwelwyr a ddaeth i'r Amgueddfa yn 2001-02 gan brofi bod sylfaen gadarn i'w phoblogrwydd. Bu'n arbennig o galonogol gweld y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr mewn misoedd a fu gynt yn rhai tawel, fel misoedd Hydref a Chwefror.

Mae'r manteision yn sylweddol nid yn unig i'r Amgueddfa ei hunan, ond i economi Llanberis yn gyffredinol. Trwy sicrhau nad yw'r diwydiant ymwelwyr lleol mor dymhorol ag y bu, mae rhagor o bobl yn cael eu cyflogi trwy gydol y flwyddyn, ac mae busnesau cyfagos yn gallu ymestyn eu tymhorau gweithredu, buddsoddi mewn gwelliannau a marchnata nifer o weithgareddau a gynhelir y tu allan i'r prif dymor gwyliau. Mae consortiwm datblygu twristiaeth a chymunedol Partneriaeth Llanberis yn cyfarfod yn rheolaidd yn yr Amgueddfa ac mae staff yr Amgueddfa'n darparu gwasanaeth ysgrifenyddol ar ei gyfer.

Yn Amgueddfa Lechi Cymru, mae'r staff wedi dal ati i wella a gloywi'r ddarpariaeth. Dathlodd yr Amgueddfa ei phen-blwydd yn 30 oed ym mis Mai 2002, a daeth yr aelod lleol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Dafydd Wigley AC, i lansio dau gyflwyniad newydd ar CD-ROM. Mae'r cyntaf yn cyferbynnu dulliau modern o gloddio am lechi â'r rhai mwy traddodiadol, ac mae'r ail yn defnyddio darluniau cyfrifiadurol i esbonio sut y mae llechfaen yn cael ei ffurfio.

Mae ysgolion a grwpiau addysgol eraill yn ymwelwyr pwysig ac agorwyd lle arbennig iddynt fwyta eu pecynnau bwyd, cadw eu bagiau ac ati. Ailddechreuodd Una, locomotif stêm yr Amgueddfa, ar ei gwaith ar ôl ei hadnewyddu.

Gwnaed llawer o waith i ddatblygu partneriaethau yn ystod y flwyddyn. Mae staff yr Amgueddfa Lechi wedi bod wrthi'n cefnogi ac yn meithrin yr agweddau hynny sy'n berthnasol i ogledd Cymru. Bu staff Addysg a Marchnata'r Amgueddfa yn cydweithio â staff Oriel Ynys Môn, Llangefni, a bu'r staff gweinyddol yn cymryd rhan mewn trafodaethau manwl a arweiniodd at sefydlu cwmni lleol – Segontium Cyf. – sy'n rhedeg Amgueddfa Rufeinig Segontium yng Nghaernarfon erbyn hyn.

Yn hydref 2002, symudwyd beudy o Gae Adda, Waunfawr, i Amgueddfa Werin Cymru (gweler tud. 26). Bu staff technegol o'r Amgueddfa Lechi'n cydweithio â staff Sain Ffagan i sicrhau bod y gwaith yn rhedeg yn esmwyth a bod y dasg yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus – tipyn o gamp o ystyried bod y sylfeini'n cynnwys carreg enfawr oedd yn pwyso saith tunnell! Yr Amgueddfa Lechi oedd yn trefnu'r gwaith cyhoeddusrwydd ac yn cysylltu â'r cyfryngau hefyd a bu uned rhaglenni celfyddydau y BBC yn rhoi sylw i'r gwaith symud fel rhan o'u cyfres estynedig ar waith AOCC.

**Amgueddfa Lechi Cymru**
Gilfach Ddu, Llanberis,
Gwynedd, LL55 4TY
(01286) 870630
Ar Agor Pasg-Hydref bob dydd 10am-5pm; Tachwedd-Pasg Sul-Gwener 10am-4pm, ar gau ar ddydd Sadwrn

**Ymweliadau**

**2000-01:** 53,890 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 144,408
**2002-03:** 130,201

'Staff yn barod iawn i helpu. Y fideo, y gweithdai, y caffi – gwych. Fe fyddwn ni'n dod yn ôl eto ac yn treulio mwy o amser yma'.
R. Bareham, West Yorks, Awst 2002

# Pwll Mawr: Yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol

**Pwll Mawr: Yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol**
Blaenafon, Torfaen NP4 9XP
(01495) 790311

Ar agor 13 Chwefror-30 Tachwedd, bob dydd 9.30-5pm

**Ymweliadau**

**2000-01:** 73,914 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 130,037
**2002-03:** 116,278



Mae Pwll Mawr yn cynnig profiad i ymwelwyr sy'n unigryw yn y DU. Mae ymwelwyr yn cael cap a lamp ac yn mynd i lawr 300 troedfedd i grombil y ddaear i weld lle bu'r glowyr yn gweithio yn un o byllau glo olaf de Cymru. Mae Pwll Mawr yn rhan o Dirwedd Diwydiannol Blaenafon, sef Safle Treftadaeth y Byd cyntaf Cymru, ac mae'n enghraifft sydd heb ei hail o dref ddiwydiannol gynnar oedd yn rhan o'r genedl ddiwydiannol gyntaf.


Ym mis Ebrill 2003 roedd Pwll Mawr yn dathlu ei ugeinfed pen-blwydd fel atyniad i ymwelwyr ac, yn ôl pob tebyg, eleni y gwelwyd y newidiadau mwyaf i ymddangosiad y safle yn ystod yr ugain mlynedd hynny.


Disgwylir i'r datblygiad cyfalaf gael ei gwblhau ar y safle ddechrau'r hydref, ar gost o £7m, cyn ei lansio'n swyddogol yng ngwanwyn 2004. Mae'r safle i gyd yn cael ei ddatblygu gan ddarparu nifer o gyfleusterau newydd ar gyfer ymwelwyr. O ganlyniad i'r gwaith hwn, bydd yr amgueddfa'n dlws yng nghoron treftadaeth ddiwydiannol Cymru am flynyddoedd mawr i ddod.

Mae Pwll Mawr wedi bod ar agor i'r cyhoedd tra bu'r gwaith yn mynd rhagddo ac mae nifer yr ymwelwyr wedi bod yn rhyfeddol o uchel. Dim ond mewn dwywaith o'r blaen y cafwyd mwy o ymwelwyr nag a gafwyd yn haf 2002. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol, pan fydd Pwll Mawr yn gallu cynnig profiad gwell o lawer i ymwelwyr wrth iddynt fwynhau'r cyfleusterau newydd yn ogystal â'r profiad bythgofiadwy o fynd danddaear.

Bu adran addysg Pwll Mawr yn brysur yn gweithio ar adnoddau newydd i blant 7 - 11 oed a'u hathrawon eu defnyddio ar y we. Datblygwyd project Plant y Chwyldro i helpu athrawon i ddysgu hanes yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac fe'i hategir gan ddau fideo, Tref Haearn, sy'n edrych ar wahanol agweddau ar fywyd yn ardaloedd diwydiannol de Cymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rydym yn ddiolchgar i Sefydliad Lloyds TSB am barhau i gefnogi ein rhaglen addysg.

Tan fis Chwefror 2001, bu Pwll Mawr yn Ymddiriedolaeth Elusennol annibynnol ac yn Gwmni Cyfyngedig. Yn 2001-02, bu'n rhaid iddo addasu i fod yn amgueddfa genedlaethol oddi fewn i sefydliad cenedlaethol sydd hefyd yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Digwyddodd y newid hwn tua'r un pryd ag y cychwynnwyd ar y buddsoddiad cyfalaf cyfredol. Ceir rhagor o sôn am y gwaith ailddatblygu a wnaed yn 2002-03 yn y rhan o'r Adroddiad hwn sy'n amlinellu Strategaeth Ddiwydiannol AOCC (gweler tud. 55).







Adeiladau newydd – bloc swyddfeydd ac ardal gadwraeth – yn cael eu adeiladu ym Mhwll Mawr

'Rydw i wedi bod yma 14 o weithiau ac mae'r holl deithiau wedi bod yn ardderchog... diolch.'

Michael Davies, Caersws, Powys

# Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru

**Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru**
Dre-fach Felindre, Llandysul,
Sir Gaerfyrddin SA44 5UP
(01559) 370929

Ar gau ar gyfer gwaith ailddatblygu tan wanwyn 2004

**Ymweliadau**


**2000-01:** 9,036 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 12,576
**2002-03:** Ar gau ar gyfer gwaith ailddatblygu



Mae Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru, ym mherfeddion cefn gwlad gorllewin Cymru, yn adrodd hanes y deugain o felinau oedd i'w gweld o gwmpas Dre-fach Felindre ers lawer dydd. Mae Melin y Cambrian – yr unig felin yn y pentref sy'n dal i weithio ers iddi gael ei hadeiladu – yn gartref i'r Amgueddfa erbyn hyn. Mae technegau ganrifoedd oed, sgiliau anghofiedig a ffyrdd traddodiadol o fyw yn cyd-fyw â phrysurdeb melin wlân sy'n dal i weithio, ac sy'n dal i gynhyrchu ar gyfer y farchnad fodern.

Yn 2001-02, cafodd AOCC bron i £1m oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri i helpu i ail-ddatblygu'r safle fel prif amgueddfa'r Gorllewin. O ganlyniad i hyn, caewyd yr Amgueddfa i ymwelwyr ar 1 Mawrth 2002 gyda'r bwriad o'i hailagor tua dechrau 2004.

Mae'r rhaglen fuddsoddi gwerth £2m yn cynnwys atgyweirio adeiladau rhestredig y felin, darparu gwell cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr, cyfleusterau addysg pwrpasol a dehongli'r casgliadau mewn ffordd fodern. Ceir rhagor o sôn am y gwaith ailddatblygu a wnaed yn 2002-03 yn y rhan o'r Adroddiad hwn sy'n amlinellu Strategaeth Ddiwydiannol AOCC (gweler tud.55).











Prif ddelweddau, o'r chwith i'r dde:

Bu angen gwneud gwaith mawr i ddiogelu glannau'r afon ac amddiffyn yr adeiladau

Dechrau'r gwaith i wyro Nant Bargod

Cafodd cwrs yr afon ei wyro, ond nid oedd modd gwneud gwaith ar y glannau rhwng Medi a Mawrth am fod y samwn yn silio!

Ffotograffau gan Paul Avis

# Amgueddfa'r Lleng Rufeinig

**Amgueddfa'r Lleng Rufeinig**
Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE
(01633) 423134

Ar agor Llun-Sad 10am-5pm
Sul 2-5pm

**Ymweliadau**

**2000-01:** 58,997 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 70,160
**2002-03:** 65,495

De: dathlodd yr Ermine Street Guard eu pen-blwydd yn 30 oed yn ALIR ym mis Gorffennaf

A hithau'n rhan o AOCC erbyn hyn, mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerllion wedi bod yn lle i weld casgliad cyfoethog o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers 1850. Ymhlith y rhain mae cerfluniau, arysgrifau, cerrig beddi, deunyddiau adeiladu, labrinth mosäig, offer milwrol, llestri, darnau o wydr a gemwaith. Yn ogystal, mae Ystafell Farics maint llawn wedi'i hail-greu yno – yr unig un o'i math ym Mhrydain.

Mae tref Caerllion ar safle un o ddim ond tair canolfan parhaol lleng Rufeinig ym Mhrydain. Mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig ar safle'r pencadlys ynghanol y Gaer. Gwelir olion waliau'r Gaer, y Baddonau, yr enghraifft orau yn Ewrop o Floc Barics a gloddiwyd gan archaeolegwyr, ac Amffitheatr yn y dref hyd heddiw.

Daw grwpiau ail-greu Rhufeinig i'r Amffitheatr, yn eu plith rai o dramor fel Ysgol Gladiatoriaid Ars Dimicandi o Curno, Gogledd yr Eidal. Mae projectau newydd ar y gweill fel creu Gardd Rufeinig.

Prif achlysur y flwyddyn oedd y Sioe Filwrol Fawreddog ym mis Gorffennaf 2002. Achlysur i ddathlu pen-blwydd yr Ermine Street Guard yn 30 oed oedd hwn ac, er mwyn diolch am y berthynas wych sydd rhyngom, cynhaliodd yr Amgueddfa dderbyniad gyda'r nos gyda Peter Connolly yn siaradwr gwadd.

Ym mis Medi 2002, am y tro cyntaf ers chwe blynedd, cynhaliwyd Darlith Flynyddol Caerllion. Daeth Ralph Jackson o'r Amgueddfa Brydeinig i siarad am Feddygaeth Rufeinig. Cymaint oedd y galw am docynnau fel y bu rhaid cynnal yr achlysur yn neuadd yr ysgol leol ac fe'i dilynwyd gan dderbyniad yn Oriel yr Amgueddfa.

Ym mis Hydref 2002, cymrodd yr Amgueddfa ran ym Mhenwythnos Addysg y Teulu. Cynhaliwyd cystadleuaeth ledled Prydain i ganfod yr achlysur gorau yn y dosbarthiadau canlynol: Ysgolion, Amgueddfeydd ac Orielau Celf, a Llyfrgelloedd – ac Amgueddfa'r Lleng Rufeinig enillodd y wobr yn y dosbarth Amgueddfeydd ac Orielau Celf. Roedd gan y beirniaid feini prawf llym: amrediad apêl y gweithgareddau, y cyfleoedd i wahanol aelodau o'r teulu ddysgu gyda'i gilydd ar y diwrnod ac yn y dyfodol, a oedd partneriaethau cymunedol wedi cael eu creu neu eu cryfhau ac a oedd cyfleoedd i ddysgu eto yn dod yn sgil yr achlysur.

Project arall a enillodd wobr oedd Her Caerllion, adnodd a gynhyrchwyd ar gyfer y we drwy bartneriaeth rhwng AOCC, AALl Casnewydd a Cadw a lansiwyd yn yr haf. Nod yr adnodd amlgyfrwng hwn ar gyfer Baddonau'r Gaer yw helpu plant ysgol i ddeall yr olion archaeolegol. Enillodd partneriaid y project wobr 'Clod Uchel' yng Ngwobrau Archaeolegol Prydain ym mis Medi.

Yn olaf, yn 2002, ffurfiwyd pwyllgor bychan gyda'r nod o hyrwyddo Caerllion fel cyrchfan i ymwelwyr a datblygu polisi twristiaeth gynaliadwy. Mae cynrychiolwyr busnesau lleol, yr awdurdod lleol, Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd ac AOCC yn aelodau o Fforwm Caerllion.

Yn haf 2002, dechreuodd y Fforwm godi arian i gynnal Gŵyl Gelfyddydau wythnos o hyd ym mis Gorffennaf 2003 i ddenu ymwelwyr newydd i'r ardal. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau i godi arian, yn eu plith Noson Gyri, Noson Jazz, Rhostio Mochyn, Arwerthiant Celf a sesiwn Cwadfeicio.







# Amgueddfa Rufeinig Segontium

Segontium, ar safle un o gaerau Rhufeinig enwocaf Prydain, yw amgueddfa leiaf AOCC. Er mai nifer gymharol fychan o ymwelwyr sy'n ymweld â hi, mae'r amgueddfa'n cydweithio mewn ffyrdd creadigol â'r gymuned y mae'n perthyn iddi. Yn 2002-03, dechreuodd AOCC drafodaethau gyda nifer o bartneriaid gyda'r nod o sefydlu Ymddiriedolaeth leol i weithredu'r Amgueddfa.

**Amgueddfa Rufeinig Segontium**
Ffordd Beddgelert, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2LN
(01286) 675625
Ar agor 1 Tach-Mawrth Llun-Sad 10am-4pm, Sul 2-4pm; 1 Ebr-Hyd Llun-Sad 10am-5pm, Sul 2-5pm

**Ymweliadau**

**2000-01:** 8,810 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 12,565
**2002-03:** 10,149



Ken Brassil, Swyddog Addysg Hanes, yn gweithio gyda phlant o Ysgol yr Hendre, Caernarfon

# Oriel Tŷ Turner

Oriel Tŷ Turner
Ffordd Plymouth, Penarth
CF64 3DM
(029) 2070 8870


Ar agor Maw-Sul 10am-5pm, a phob dydd Llun Gŵyl y Banc

Ymweliadau

**2000-01:** 10,554 (cyn cyflwyno mynediad am ddim)
**2001-02:** 11,706
**2002-03:** 10,829

Mae Oriel Tŷ Turner, Penarth wedi bod yn cynnal arddangosfeydd celf dros dro ers 1950. Yn 2002-03, roedd yr arddangosfeydd a gynhaliwyd yn yr Oriel yn cynnwys *Looking Out* (arddangosfa o beintiadau a lluniadau gan arlunwyr y Grŵp Cymreig), *Made in China* (casgliad newydd o luniau o Tsieina heddiw gan y ffotograffydd Rhodri Jones), arddangosfa flynyddol Cymdeithas Gelf De Cymru ac arddangosfa o waith gan aelodau o Gymdeithas Dyfrlliw-wyr Cymru.

Fel sefydliad cenedlaethol sy'n rhedeg amgueddfeydd mwyaf Cymru, mae AOCC wedi teimlo ers amser na ddylai fod yn gyfrifol am reoli oriel mor fach, a'r unig un o'n hamgueddfeydd sydd heb gasgliad parhaol, yn uniongyrchol.
O fis Ebrill 2003 ymlaen, caiff yr Oriel ei rhedeg am ddwy flynedd gan Ffotogallery, Caerdydd, a fydd yn trefnu rhaglen gyffrous o gelfyddyd ffotograffig.



*When young we loved old graveyards and the poetry of John Keats* (2002), Eileen Allan (g.1924) o'r arddangosfa *Looking Out*

# Canolfan Gasgliadau AOCC



Ar hyn o bryd, mae'r Adran Ddiwydiant yn gweithredu o Ganolfan Nantgarw yng Nghymoedd y De gan wneud gwaith curadurol, cadwraeth ac ymchwil ar y Casgliadau Diwydiannol yn y Ganolfan Gasgliadau ac yn amgueddfeydd hanes cymdeithasol a diwydiannol AOCC.

Sefydlwyd gweithdai i wneud gwaith cadwraeth ar arteffactau diwydiannol bychain a gweithiau ar bapur yn y Ganolfan Gasgliadau ac mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu adnoddau peirianneg a gwaith coed.

Mae staff yr adran wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu'r amgueddfa diwydiant a môr newydd yn Abertawe a'r gwaith o ailddatblygu Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru a Phwll Mawr, a ariannwyd yn rhannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Rhaid i AOCC sicrhau y gall ofalu'n iawn am y casgliadau a'r stadau a ymddiriedwyd i'w ofal. Felly, mae'r casgliadau diwydiannol yn cael eu storio erbyn hyn o dan amodau amgylcheddol gwell nag erioed yn y Ganolfan Gasgliadau. Yn ogystal, agorwyd gweithdai yn y Ganolfan Gasgliadau i wneud gwaith cadwraeth ar eitemau mawr o fetel a phren.

Un o amcanion eraill AOCC yw sicrhau ei bod yn haws i bobl weld ei gasgliadau a'r wybodaeth sydd ynghlwm wrthynt ac yn ystod y flwyddyn gwnaeth 402 o ymwelwyr drefniadau i ddefnyddio cyfleusterau'r Ganolfan Gasgliadau.

**Canolfan Gasgliadau AOCC**
Heol Crochendy, Parc
Nantgarw, CF15 7QT
(029) 2057 3560

Ar agor i'r cyhoedd trwy drefniant




amrywiaeth cenedlaethol

# safonau rhyngwladol

Gwasanaethau canolog o'r safon uchaf yw'r sail i ansawdd y profiad a gynigir gan ein hamgueddfeydd a'n horielau





# Addysg

Mae addysg wrth galon popeth y mae AOCC yn ei wneud. Yn ogystal â diwallu anghenion y 205,000 o ymwelwyr a ddaeth i safleoedd AOCC mewn grwpiau addysgol ffurfiol, a'r 160,000 a gymrodd ran mewn gweithgareddau dysgu gydol oes, bu'r Adran Addysg yn gweithio ar nifer o faterion allweddol ym maes datblygu cynulleidfaoedd, TGCh ac addysg wyddonol.

## Datblygu cynulleidfaoedd newydd

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant y polisi mynediad am ddim, comisiynodd AOCC Canolfan Ymchwil i Amgueddfeydd ac Orielau Prifysgol Caerlŷr i gynnal project ymchwil i bobl nad ydynt yn ymweld â ni. Roedd y gwaith yn cynnwys astudio'r defnyddiau sydd ar gael eisoes, cynnal grwpiau ffocws ledled Cymru a holi gweithwyr cymunedol allweddol. Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried anghenion teuluoedd, pobl ifanc, pobl hŷn, lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg a chymunedau difreintiedig ac fe'i defnyddir fel sail ar gyfer ein cynlluniau i ddatblygu cynulleidfaoedd ac i sicrhau cynhwysiad cymdeithasol yn 2003-04.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith nad oes llawer o bobl ifanc 16 - 24 oed yn ymweld ag amgueddfeydd, sefydlodd AOCC y project Ar Dir Cyffredin. Nod y fenter yw rhoi cyfleoedd i bobl ifanc, gan gynnwys rhai o gefndiroedd difreintiedig, ymweld â chynlluniau treftadaeth lleol a chenedlaethol a chreu darn o waith (e.e. fideo, arddangosfa, gwefan) gyda'r nod godi proffil amgueddfeydd ac orielau ymysg eu cyfoedion.

Bu Ar Dir Cyffredin yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys amgueddfeydd lleol ac asiantaethau cymunedol/addysg mewn pedair ardal yng Nghymru – Dinbych y Pysgod, Abertawe, Cwm Rhondda a Dinbych. Ariannwyd y cynllun gan y Gronfa Mynediad i Amgueddfeydd ac Orielau sy'n rhan o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Lloyds TSB, Dysg, ac Ymddiriedolaeth Addysgol J. P. Morgan Fleming.


At bobl hŷn yr anelwyd y sesiwn Tynnu ar y Cof a gynhaliwyd i lansio'r Darlun Mawr yng Nghaerdydd. Trwy gydweithio ag Age Concern, Help the Aged a'r University of the Third Age (U3A), llwyddwyd i ddenu 95 o ymwelwyr hŷn oedd yn awyddus i loywi eu doniau artistig yng nghwmni'r darlunydd a'r awdur enwog Quentin Blake. Ym Mhwll Mawr, bu'r amgueddfa a Grŵp Treftadaeth Gymunedol Blaenafon yn cydweithio ar arddangosfa o luniau o'r hen Flaenafon a gwahoddwyd pobl hŷn i rannu a chofnodi eu hatgofion o ardal a fu gynt yn un ddiwydiannol iawn.

## Darparu adnoddau ar gyfer teuluoedd


- Er mwyn annog oedolion a phlant i elwa'n fwy ar eu hymweliadau, paratowyd cyfres o lwybrau teuluol ar ein safleoedd. Yn yr Amgueddfa Werin, defnyddiwyd cwestiynau plant i baratoi'r canllaw Ailddarganfod Eglwys Sant Teilo, sy'n rhoi gwybodaeth i'r teulu cyfan mewn ffordd sy'n hawdd ei deall.



Chwith ac uchod: yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi, cynhyrchodd plant ysgol waith celf wedi ei ysbrydoli gan bethau a ganfuwyd ar draethau Sir Benfro a gweithiau'r artist Graham Sutherland



Ar Dir Cyffredin: cynhyrchodd pobl ifanc Asiaidd yn Abertawe waith celf ar thema 'Olwyn Ddiwylliant' oedd yn cynrychioli profiadau diwylliant de Asia





Daeth y BBC i siarad â Richard Battrick, artist preswyl AOCC yn yr Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi

Lansiwyd taflen i'r teulu o'r enw Olion Olwyn y Wagen yn Amgueddfa Lechi Cymru hefyd.

- Am y tro cyntaf erioed, cymerodd yr holl safleoedd ran yn y Penwythnos Addysg y Teulu ac enillodd Amgueddfa'r Lleng Rufeinig un o dair gwobr blaenllaw'r Ymgyrch dros Ddysgu am ei rhaglen addysg.
- Cyflwynwyd 'Certiau Celf' yn arddangosfeydd Ceri Richards a Cedric Morris yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, gan roi cyfle i bobl o bob oedran ymateb yn greadigol i'r gweithiau oedd i'w gweld yno. Roedd hwyluswyr yr orielau a chardiau celf arbennig yn annog ymwelwyr i greu eu gweithiau celf eu hunain, ac roedd ffrwyth eu gwaith yn cael ei arddangos er mwyn annog ymwelwyr eraill i wneud yr un peth.
- Cynllun peilot arall oedd cynnal dyddiau astudio rheolaidd yn Oriel Glanely sef oriel ryngweithiol yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu eu plant gartref. Mae'r sesiynau bob yn ail fis yn cynnig cyfle i blant o bob oedran a'u rhieni weithio gyda sbesimenau'r amgueddfa a'r staff curadurol.

Defnyddio cyfryngau electronig a digidol

- Mae penodi Swyddog E-ddysgu cyntaf AOCC wedi ein galluogi ni i greu 'cronfa' gynyddol o adnoddau dysgu, gan gynnwys pecynnau i athrawon eu lawrlwytho a defnyddiau addysgol rhyngweithiol.
- Lansiwyd ymgyrch ar-lein gan SCAN (Rhwydwaith Agenda 21 i Ysgolion a Chymunedau) i chwilio am y falwoden wregysog 'estron' a ymddangosodd ym Mhrydain am y tro cyntaf ym 1950 ac a welwyd yng Nghaerdydd yn 2000. Mae rhith-ymwelwyr yn defnyddio'r siart a'r map ar-lein i nodi lle gwelsant y falwen.

## Gwell dealltwriaeth o wyddoniaeth, cynaliadwyedd a bioamrywiaeth

- Cymrodd plant o 75 o ysgolion yn ne a gorllewin Cymru ran yn ail ŵyl amgylcheddol AmgylcHwyl Amgueddfa Werin Cymru. Bwriad y rhaglen arloesol oedd codi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a thynnu sylw at thema'r tair A – Adfer, Ailddefnyddio ac Ailgylchu. Diwrnod o hwyl i'r teulu cyfan oedd trydydd diwrnod yr ŵyl gyda phob math o weithgareddau a cherddoriaeth ar gyfer pobl o bob oedran. Noddwyd AmgylcHwyl gan Gyngor Caerdydd drwy'r Cynllun Credyd Treth Tirlenwi, Legal & General, Fforwm Gwastraff Caerdydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a'r RSPB.
- Trefnwyd *'Get Set for Science'* i helpu athrawon i gynnal arbrofion gwyddonol syml yn eu hysgolion yn ystod Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth. Trefnwyd y sesiynau gweithgarwch a gynhaliwyd dros dri diwrnod mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Addysg-Busnes a'r Gymdeithas Brydeinig er Datblygu Gwyddoniaeth yng Nghymru gan roi cyfle i 75 o athrawon gymryd rhan mewn nifer o arbrofion 'ymarferol' oedd yn cynnwys gwneud llosgfynyddoedd, ffelt ac abwydfeydd!

## Allestyn

- Cymrodd dros 34,000 o bobl ran mewn gweithgareddau addysgol allanol gan gynnwys rhaglen o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi, ac fe gynhaliwyd 1,700 o sesiynau fideo-gynadledda.
- Aeth Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru allan i gyflwyno sesiynau addysg mewn ysgolion.
- Mae ein Gwasanaeth Allestyn, a sefydlwyd yn wreiddiol i fenthyca eitemau i ysgolion, yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i gynlluniau cymunedol fel Antur Waunfawr, gan gydweithio â phobl ag anawsterau dysgu. Mae fan y Gwasanaeth Allestyn, a roddwyd yn garedig gan Gyfeillion AOCC, wedi ein galluogi i weithio ledled Cymru gan fynd i ardaloedd anghysbell a difreintiedig, a chyflwyno ein casgliadau i dros 118,000 o ddefnyddwyr.

# Marchnata a Gwasanaethau Ymwelwyr

Parhaodd ein strategaeth farchnata i ganolbwyntio ar ymchwilio i anghenion ein cynulleidfaoedd, hen a newydd, a gwasanaethu'r anghenion hynny.

Eleni, cyflwynwyd 'Cylchoedd Cwsmeriaid' yn Amgueddfa Werin Cymru ac yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. Bu grwpiau o'n hymwelwyr mwyaf ymroddgar a theyrngar yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod materion, syniadau a dyheadau ar gyfer yr amgueddfa o'u dewis. Roedd hyn yn rhoi cyfle i AOCC wrando ar wybodaeth fanwl na ellid mo'i chasglu drwy'r gwaith ymchwil marchnata arferol a wneir bob blwyddyn sy'n canolbwyntio ar niferoedd ymwelwyr. Disgwylir i'r project Cylchoedd Cwsmeriaid gael ei ehangu i amgueddfeydd eraill.

Ar ôl cyflwyno mynediad am ddim, daeth yn gyfrifoldeb arnom ystyried y rhwystrau eraill sy'n cadw pobl draw, yn enwedig mewn rhannau mwy difreintiedig o Gymru. Gwnaed y gwaith hwn gan Ganolfan Ymchwil i Amgueddfeydd ac Orielau Prifysgol Caerlŷr. Mae'r canfyddiadau wedi annog AOCC i ailystyried ei strategaethau presennol a datblygu syniadau newydd o ran rhaglennu digwyddiadau ac arddangosfeydd, tactegau marchnata a gofalu am ymwelwyr.

Ar ddiwedd yr ail flwyddyn ar ôl cyflwyno mynediad am ddim, roedd yn dda gweld bod ffigurau ymwelwyr ar gyfer yr holl safleoedd 11% yn uwch na'r targed a 67% yn uwch nag yr oeddent pan codwyd tâl mynediad. Profwyd nad oedd codwyd newydd-deb y polisi mynediad am ddim wedi pylu pan gyrhaeddwyd y targed o 1 miliwn o ymwelwyr yn gynnar yn y flwyddyn newydd gan arwain at gyfanswm terfynol o 1,278,449.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn o ran hyrwyddo'r Amgueddfa oedd y cydweithio a gafwyd rhwng AOCC a'r BBC i gynhyrchu'r gyfres ardderchog *Treasure House*, sef cyfres ddogfen chwe rhan am y casgliadau a ddarlledwyd ar BBC2 Cymru ym mis Ionawr a Chwefror 2003. Denodd y rhaglenni hyn gynulleidfaoedd o dros 100,000 – tipyn o gamp i gyfres fel hyn mewn gwlad â phoblogaeth o lai na thair miliwn. Mae'r gynulleidfa'n cymharu'n ffafriol â ffigwr o 1.6 miliwn ar gyfer cyfres debyg yn Lloegr.


Rhoddwyd hwb arall i AOCC gyda dyfodiad cylchgrawn chwarterol newydd gyda'r nod o roi gwybod i'n cefnogwyr, ein partneriaid a'n harianwyr am y datblygiadau diweddaraf yn y sefydliad. Mae Premier yn ychwanegol at ein cylchgrawn Ymlaen, sy'n ceisio annog y cyhoedd i fwynhau rhyfeddodau ein casgliadau a'r cannoedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau i deuluoedd a gynhelir bob blwyddyn.






Ffotograff gan Ethos

safonau rhyngwladol




# Cyhoeddiadau a Dylunio


Rhoddwyd sylw ar bapur ac ar y we i holl wahanol ddisgyblaethau a safleoedd AOCC. Ym mis Mai 2002 cyhoeddwyd llawlyfr newydd sbon i Amgueddfa Lechi Cymru. Cafwyd y trydydd argraffiad o'r llyfr lluniau poblogaidd *Roman Legion* mewn pryd i ddathlu pen-blwydd yr Ermine Street Guard yn 30 oed. Lansiwyd *Domestic Life in Wales* (a gyhoeddwyd ar y cyd â Gwasg Prifysgol Cymru) yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyhoeddwyd *The Second Augustan Legion and the Roman Military Machine*, detholiad o Ddarlithoedd Caerllion ym mis Medi; a chyhoeddwyd *Telychian Rocks of the British Isles and China* ym mis Tachwedd.


Ym mis Hydref 2002 cyhoeddwyd cyfrol newydd llawn lliw, sydd ar gael am ddim, fel argraffiad arbennig: mae *Trysorau Cenedl* yn amlinellu hanes a chasgliadau AOCC, gan esbonio sut, beth a pham yr ydym yn casglu, ac yn bwrw goleuni ar rai o hoff eitemau'r casgliadau.

Cyhoeddwyd llyfrau i gyd-fynd ag arddangosfeydd o waith dau o artistiaid mwyaf diddorol a phwysig Cymru yn yr ugeinfed ganrif, sef Ceri Richards a Cedric Morris, ac roedd *Ail-Greu* yn esbonio sut mae artistiaid a chrefftwyr, yn ogystal ag archaeolegwyr, yn dehongli'r gorffennol.


Bu i raglen arddangosfeydd yr Amgueddfa elwa ar arbenigedd ei dylunwyr ym meysydd marchnata a dehongli. Bu galw am eu gwasanaeth mewn mannau eraill hefyd. Staff yr Amgueddfa oedd yn gyfrifol am y graffeg ar gyfer yr arddangosfa *Creu Durga*, o Lyfrgell Ganolog Caerdydd, a buont yn Oriel Ynys Môn hefyd i ddylunio a gosod yr arddangosfa *Ail-Greu*.

Yn y gwanwyn, lansiwyd Casgliadau Celf Ar-lein, datblygiad newydd a chyffrous ar wefan AOCC. Gellir chwilio am luniau, cerfluniau neu artistiaid penodedig ar y wefan. Rhoddir manylion amrywiol sy'n golygu y gellir creu 'oriel bersonol' gan gynnwys gwybodaeth am gefndir yr artistiaid a lle mae eu gwaith yn yr orielau. Mae hyn yn helpu pobl i gynllunio eu hymweliad â'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ac mae'n golygu bod y casgliadau celfyddyd gain ar gael i ymwelwyr ar-lein. Ceir tudalennau addysg ar y wefan hefyd sy'n rhestru gweithdai a gweithgareddau ac yn cynnwys adnoddau y gall athrawon eu lawrlwytho.






safonau rhyngwladol



Manylyn o Bentan Oes yr Haearn a gafwyd ger Capel Garmon ym 1852, sydd bellach yn un o'r 20,000 o arteffactau sy'n rhan o broject Digideiddio Casglu'r Tlysau – www.gtj.org.uk

## Adnoddau dynol

Gan mai un o brif amcanion AOCC yw gwella dulliau denu a chadw staff, bu'r Adran Adnoddau Dynol yn brysur yn cwblhau adolygiad o raddfeydd a chyflogau staff ar draws AOCC.

Yn gyntaf, cafwyd cytundeb gyda'n hundebau, a dyma'r tro cyntaf i ni daro bargen tair-blynedd oedd yn cynnwys telerau ac amodau cyflogaeth pob aelod o'r staff. Roedd y cytundeb yn benllanw ar fisoedd o drafodaethau manwl ac fe'i cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2002 i redeg o fis Medi 2001 tan fis Awst 2004. Roedd hyn yn cynnig cyfnod hir o sefydlogrwydd a roddodd gyfle i hyfforddi dros ddau ddwsin o aelodau staff o bob rhan o'r sefydliad i fantoli a graddio swyddi. Wedyn bu'r grŵp yn edrych ar bob swydd yn AOCC gan ddefnyddio system wrthrychol o bwyso a mesur swyddi a ddatblygwyd yn arbennig ar ein cyfer.

Cafodd y canlyniadau eu cymharu â'u cymedroli ar draws y sefydliad cyfan i roi patrwm cyflogaeth i AOCC sy'n adlewyrchu gwir werth a gwerth cymharol yr holl swyddi amrywiol sydd gennym.

Yn ogystal, dechreuwyd gwaith ar Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu. O dan ein Cynllun Iaith presennol, rydym yn gwneud pob ymdrech i gyflogi staff dwyieithog i adlewyrchu anghenion a gofynion ein hymwelwyr. Mae'r hyfforddiant cyflwyno AOCC ar gyfer ei holl staff yn cynnwys defnydd priodol o'r iaith Gymraeg a sut i ymateb i geisiadau yn y Gymraeg mewn ffordd briodol, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, drwy weithredu'r Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu dros y tair blynedd nesaf, daw AOCC yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer gwasanaeth dwyieithog rhagweithiol.

Roedd hi'n galonogol felly bod adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar atyniadau ymwelwyr yng Nghymru yn 2002 yn enwi Amgueddfa Werin Cymru fel enghraifft o arfer dda ac o'r 'hyn sy'n bosibl' (de).

## Masnachol

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2002-03 cyrhaeddodd gweithgarwch masnachol AOCC garreg filltir bwysig pan cwblhawyd y gwaith o sefydlu Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf., is-gwmni masnachol sy'n llwyr eiddo i AOCC ac sydd â'r cyfrifoldeb o wella'r incwm a geir o adwerthu, trwyddedu delweddau, e-fasnach, arlwyaeth a llogi corfforaethol.

Ym mis Mai 2002 llofnodwyd contract gyda Llyfrgell Gelf Bridgeman, sef llyfrgell luniau fwyaf Ewrop, i weithredu fel asiantau ar gyfer 250 o'n delweddau celfyddyd gain. Mae'r trefniant hwn yn caniatáu i ni ddefnyddio cronfa ddata eang Bridgeman o gyhoeddwyr, ymchwilwyr lluniau a gwneuthurwyr cynnyrch i gyrraedd cynulleidfa newydd ac ehangach yn ogystal â chodi ein proffil gartref a thramor.

Cychwynnwyd partneriaeth hefyd gyda Wales Direct i hyrwyddo ein cynnyrch adwerthu ni'n hunain drwy e-fasnach. Wales Direct oedd enillwyr rhanbarthol Gwobrau E-fasnach 2002, a nhw sy'n trafod yr holl waith ar-lein i farchnata a dosbarthu ein cynnyrch ac mae ganddynt gysylltiadau â chymdeithasau Cymreig ym mhedwar ban y byd.

Yn 2002 hefyd, dechreuodd AOCC gydweithio ag Adran Gwneud Printiadau Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd. Bu myfyrwyr yr ail flwyddyn yn gweithio yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol gan greu lluniau wedi'u hysbrydoli gan y casgliadau a'r bensaernïaeth. Yna, aethant ymlaen i ddatblygu eu gwaith yn y stiwdio brintiadau gan gynhyrchu pedwar portffolio o brintiadau argraffiad cyfyngedig i'w gwerthu yn siop yr Amgueddfa. Mae'r project hwn yn nodi dechrau partneriaeth i ddatblygu pethau unigryw i'w gwerthu yn yr Amgueddfa a bwriedir ei ehangu i ddisgyblaethau creadigol eraill gan gynnwys tecstilau a serameg gyfoes.

Gwelwyd cynnydd o 2.5% yn y trosiant ar draws yr holl safleoedd. Dechreuwyd cadw rhagor o stoc er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i werthu. Cyflwynwyd system tiliau gyfrifiadurol yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol a'r Amgueddfa Werin fel y gallwn lunio hanes gwerthiant a fydd yn ein helpu i ragweld a chynllunio'n well ar gyfer gwerthiant.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Parhau i wella wnaeth ein gwasanaethau TGCh. Cafodd y system e-bost a'r gweinyddwyr eu huwchraddio eto yn 2003, gan wneud y system yn fwy diogel o lawer a gwneud y gwaith rheoli cyfrifon yn haws ac yn fwy diogel.

Mae cyfleusterau storio rhwydweithiol newydd yn golygu y gellir cadw llawer mwy o ddata ac mae cyfleusterau trosglwyddo ffeiliau cynhwysfawr gennym erbyn hyn i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel trosglwyddo data yn ôl ac ymlaen o weinyddwyr yr Amgueddfa. Mae gennym wasanaethau rhestru newydd sy'n ein galluogi ni i sefydlu rhestrau postio academaidd er mwyn hyrwyddo trafodaethau dros y rhyngrwyd.

Mae Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru wedi'i chysylltu â rhwydwaith AOCC erbyn hyn ac mae ganddi ei gweinyddwyr lleol a'i rhwydwaith ardal leol ei hun.

## Dogfennaeth, Cadwraeth a Ffotograffiaeth

Roedd 2002-03 yn gyfnod cyffrous yn yr Unedau Dogfennaeth a Ffotograffiaeth gan eu bod yn chwarae rhan flaenllaw ym mhroject digideiddio Casglu'r Tlysau. Yn ystod y flwyddyn, cyfrannodd AOCC dros 2,400 o luniau a manylion gwrthrychau at y project a chyfrannodd staff o'r adrannau Dogfennaeth, Ffotograffiaeth a churadurol at y gwaith.

Mae'r Uned Ddogfennaeth yn gwneud gwaith rhagorol wrth helpu'r adrannau curadurol i greu rhestr o'r casgliadau. Mae ychydig dros 33.3% o'r casgliadau wedi'u rhestru erbyn hyn ac mae 12.19% o'r wybodaeth hon ar gael yn electronig.

Mae'r Uned Ffotograffiaeth yn rhoi gwasanaeth gwych i AOCC a'u cleientau allanol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Uned wedi cynhyrchu 9,700 o luniau analog ac mae 30% o'r rhain wedi'u digideiddio. Mae digideiddio yn datblygu ac yn cael ei gynnwys yng ngwaith a safonau cyffredinol yr Uned.

Parhau i ddatblygu a thyfu y mae gwaith cadwraeth AOCC. Mae llawer o'r staff yr Adran yn aelodau o gyrff cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol ac maent i'w gweld yn aml ar lwyfannau cynadleddau a seminarau. Trefnwyd dwy gynhadledd gan yr Adran Gadwraeth a daliwyd ati i gynhyrchu newyddlen chwarterol ar gyfer pawb sy'n ymddiddori mewn materion cadwraeth yng Nghymru.

Mae staff yr Adran Gadwraeth wedi bod yn ymwneud â'r datblygiadau ym Mhwll Mawr, Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Buont yn cyfrannu at y gwaith dylunio ac yn paratoi eitemau ar gyfer arddangosfeydd newydd.


Gwanwyn 2003

Spring 2003

BWLETIN

Tudalen 2

Tudalen 3

Sain Ffagan - yr unig le sy'n cynnig profiad Cymraeg cyflawn

St. Fagan's offers a 'real Welsh experience'

safonau rhyngwladol

# cydnabyddiaeth genedlaethol

Yn 2002-03, cadarnhaodd AOCC ei fri fel sefydliad treftadaeth o bwys drwy ennill nifer o wobrau



Anna Southall yn derbyn ei gwobr Cymraes mewn Diwylliant (a noddwyd gan Gyngor Caerdydd) oddi wrth y Cynghorydd Marion Drake a Rupert Moon yn seremoni wobrwyo Cymraes y Flwyddyn 2002 y Western Mail mewn cydweithrediad ag S4C

Ffotograff gan Glenn Edwards

### Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru yn ennill Gwobrau Twristiaeth Cymru

Amgueddfa Werin Cymru - atyniad twristiaid mwyaf poblogaidd Cymru o bell ffordd – enillodd gwobr *'Wow' Factor* – y Profiad Gorau i Ymwelwyr yng Ngwobrau Twristiaeth Cymru 2002 a drefnwyd gan Fwrdd Croeso Cymru. Amgueddfa Lechi Cymru enillodd y wobr Naws am Le am greu awyrgylch neilltuol o Gymreig. Cyflwynwyd y gwobrau i'r enillwyr mewn seremoni a chinio mawreddog yng Ngwesty Dewi Sant, Ewlo, yn Ebrill 2002.

### Y Cyn-Gyfarwyddwr yw Cymraes mewn Diwylliant 2002

Anna Southall, Cyn-Gyfarwyddwr AOCC, enillodd y teitl Cymraes mewn Diwylliant yng ngwobrau Cymraes y Flwyddyn tua diwedd 2002.

Enillodd Anna y wobr am arwain AOCC drwy'r cyfnod pan ddiddymwyd taliadau mynediad diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl cyflwyno mynediad am ddim sef 2001-02, gwelwyd cynnydd o 87% yn nifer yr ymwelwyr, o 765,000 i 1,430,000 a llwyddwyd i gynnal y cynnydd yn ystod yr ail flwyddyn, pan croesawyd 1,278,000 o ymwelwyr.

Casglodd Anna ei gwobr ar ran 'tîm AOCC' ychydig ar ôl iddi adael Caerdydd i gychwyn yn ei swydd newydd fel Prif Weithredwr Resource, sef Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau Lloegr.

### Llyfr Llychlynwyr yng Nghymru yn fuddugol yng Ngwobrau Archaeolegol Prydain 2002

Enillodd *The Vikings in Wales: An Archaeological Quest (Y Llychlynwyr yng Nghymru: Ymchwil Archaeolegol)* gan Dr Mark Redknap, Curadur Archaeoleg Ganoloesol a Diweddarach AOCC, Wobr y Llyfr Archaeolegol yn seremoni Gwobrau Archaeolegol Prydain 2002.

Dewiswyd y llyfr, a gyhoeddwyd gan AOCC, o blith dros drigain o lyfrau a enwebwyd. Canmolwyd ansawdd y wybodaeth, oedd yn defnyddio tystiolaeth hanesyddol a chanlyniadau gwaith cloddio archaeolegol diweddar i ystyried effaith y Llychlynwyr ar etifeddiaeth Cymru. Fe'i disgrifiwyd fel llyfr eithriadol oedd yn cyflwyno archaeoleg Prydain i'r gynulleidfa ehangaf.

Meddai'r beirniaid, 'Mae'r awdur yn haeddu'r llongyfarchiadau mwyaf am ei ymdriniaeth fywiog a gweledol gyffrous o ddarganfyddiadau newydd sydd wedi trawsnewid ein gwybodaeth am y cyfnod Canoloesol Cynnar yng Nghymru. Mae'r cyfuniad o ymchwil newydd a stori ddifyr ar y cyd â ffotograffau lliw o safleoedd ac arteffactau, graffiau, mapiau, a darluniau ail-greu yn gosod safon newydd ym maes cyhoeddiadau archaeolegol gan amgueddfeydd.'

### Gwobr i'r Tŷ ar gyfer y Dyfodol

Mae'r Tŷ ar gyfer y Dyfodol yn Amgueddfa Werin Cymru, a ddyluniwyd gan y penseiri Jestico + Whiles a'i adeiladu gan Redrow Homes, wedi ennill un o Wobrau Dylunio Tai Cymru 2002.

Trefnir cystadleuaeth Gwobrau Dylunio Tai Cymru gan Gymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy Comisiwn Dylunio newydd Cymru. Bwriad y gystadleuaeth yw mawrygu'r hyn a gyflawnir gan y sector tai yng Nghymru trwy gydnabod y manteision economaidd, cymdeithasol a chymunedol a ddaw yn sgil tai sydd wedi'u cynllunio'n dda. Y gobaith yw gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o werth dylunio da drwy hyn. Dywedodd yr aseswyr fod y Tŷ ar gyfer y Dyfodol yn fodel da ar gyfer elfennau cynaliadwy y gellid ac y dylid eu cynnwys mewn tai yn gyffredinol. Dywedwyd bod dulliau cynaliadwy cynnil wedi cael eu defnyddio wrth adeiladu'r tŷ a bod yr adeiladwaith yn fodern ac yn apelio at yr ymwelwyr.

### Clod rhyngwladol i Celfyddyd yr Alltud

Roedd catalog un o arddangosfeydd AOCC yn un o chwech ar restr fer am wobr ryngwladol newydd. Roedd y catalog yn adrodd hanes arlunwyr o Wlad Belg a fu'n ffoaduriaid yng Nghymru ac yn ategu'r arddangosfa *Celfyddyd yr Alltud: Fflandrys, Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf*. Fe'i henwebwyd ar gyfer Gwobr gyntaf William MB Berger ym maes Hanes Celfyddyd Prydain 2002.

Gwobr gwerth £5,000 yw hon a gyflwynir gan *The British Art Journal* mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Addysgol Casgliad Berger, Denver, Colorado i gydnabod rhagoriaeth ym maes hanes celfyddyd ym Mhrydain.










Y Tŷ ar gyfer y Dyfodol, ateb ymarferol posibl i anghenion tai yng Nghymru yn y dyfodol – gan ddefnyddio ein gwybodaeth am y gorffennol i ysbrydoli gweledigaeth ar gyfer y dyfodol




Uchod: Oliver Fairclough, Ceidwad Celfyddyd

Isod: Mark Redknap, Curadur Archaeoleg Canoloesol a Diweddarach



De: Haydn Lewis, y Technegydd Goruchwyliol, ar yr inclein V2

Project ar y cyd rhwng AOCC a'r Museum voor Schone Kunsten, Ghent, mewn cydweithrediad â Sefydliad Hannema-de-Stueurs yn yr Iseldiroedd oedd y catalog a'r arddangosfa. Dangosai'r arddangosfa waith gan artistiaid o Wlad Belg a ffodd o'u gwlad ym 1914 ac y trefnodd Gwendoline a Margaret Davies iddynt ddod i Gymru. Cafodd yr arddangosfa yng Nghaerdydd gefnogaeth garedig Cyfeillion AOCC.

## Arbenigwr arian yn ennill prif wobr Cymdeithas Nwmismateg Prydain

Cyflwynodd Gymdeithas Nwmismateg Prydain ei phrif wobr i Edward Besly, Ceidwad Cynorthwyol Archaeoleg a Nwmismateg AOCC. Dewiswyd Edward Besly drwy bleidlais gan aelodau Cymdeithas Nwmismateg Prydain i ennill Medal John Sanford Saltus 2003. Sefydlwyd y wobr ym 1910 ac fe'i cyflwynir bob tair blynedd i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig at astudio darnau arian a medalau drwy gyhoeddiadau'r Gymdeithas.

Enillodd Edward y Fedal yn bennaf am ei waith ar yr ail ganrif ar bymtheg, yn arbennig ei astudiaethau o fathdai'r brenhinwyr yng Nghaerefrog, Truro a Chaerwysg yn ystod y Rhyfel Cartref. Cafodd ei gydnabod hefyd am ei gyhoeddiadau ar y darnau arian canoloesol a ganfuwyd yn Llanfaes, Ynys Môn.

## Project Adfer yn Amgueddfa Lechi Cymru


Mae project adfer pwysig yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis wedi ennill gwobr o fri gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil. Cafodd Project Adfer Inclein V2 Chwarel Vivian gymeradwyaeth yn seremoni'r Gwobrau Pontydd ac Isadeiledd Hanesyddol yn Llundain yn 2002.

Mae'r Wobr, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2002, yn cydnabod bod y project yn un cymhleth ac unigryw. Un o incleins gwreiddiol Chwarel Vivian yw inclein V2 yn ac roedd yn cludo llechi o'r chwarel i'r rheilffordd i'w cludo ymlaen i ddociau'r Felinheli. Roedd wagenni gweigion yn cael eu tynnu i fyny ochr y mynydd gan wagenni llawn llechi ar eu ffordd i lawr. Adeiladwyd yr inclein rhwng 1837 a 1877, a byddai'n rhan amlwg o'r tirwedd ac o'r diwydiant llechi yn yr ardal.

Meddai Haydn Lewis, Technegydd Goruchwyliol yn Amgueddfa Lechi Cymru: 'Mae'r project i adfer yr inclein wedi golygu ein bod yn gallu dangos agwedd bwysig arall ar y diwydiant llechi i'n holl ymwelwyr, yn ogystal â'r hyn a welir yn adeilad yr Amgueddfa. Rydym yn falch iawn ein bod wedi ennill y wobr.'

## Ymgyrch dros Ddysgu yn anrhydeddu Amgueddfa'r Lleng Rufeinig

Enillodd Amgueddfa'r Lleng Rufeinig, Caerllion Wobr yr Achlysur Gorau am ei rhaglen o weithgareddau yn rhan o Benwythnos Addysg y Teulu, sef cynllun a gynhelir bob mis Hydref. Y nod yw creu cyfleoedd i deuluoedd ddysgu gyda'i gilydd fel rhan o fywyd bob dydd. Trefnir digwyddiadau ledled y DU gan yr Ymgyrch dros Ddysgu i helpu i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd dysgu gyda chefnogaeth teuluoedd a chymunedau .



# cymru'n un

## Gweithio mewn partneriaeth - yng Nghymru a'r tu hwnt

Mae AOCC yn cydweithio â chanolfannau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ledled Cymru ac, yn 2002-03, roedd gennym 3,135 o eitemau ar fenthyg i 134 o ganolfannau yng Nghymru.

Yn rhan o'r gwaith o hyrwyddo'r dull cydweithredol hwn o weithio rhwng AOCC a'i bartneriaid, sefydlwyd y cynllun Cyfoeth Cymru Gyfan ym mis Mai 2002. Un rhan bwysig o'r cynllun yw datblygu projectau peilot gyda thair amgueddfa ac oriel yng ngogledd a chanolbarth Cymru i'w galluogi i fenthyg eitemau o gasgliadau AOCC i'w harddangos.

I lansio'r cynllun, dewiswyd Gwasanaeth Amgueddfeydd a Diwylliant Ynys Môn, Amgueddfa ac Oriel Sir Frycheiniog ac Amgueddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan Gyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru i gydweithio ag AOCC ar brojectau peilot penodol. Bydd y cynllun yn datblygu yn y dyfodol i gynnwys canolfannau eraill yng Nghymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ariannu Cyfoeth Cymru Gyfan trwy Gyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2003, agorodd Jenny Randerson, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ar y pryd, arddangosfa Ail-Greu yn Oriel Ynys Môn. Daeth y syniad gwreiddiol ar gyfer Ail-Greu gan Adran Archaeoleg a Nwmismateg AOCC a Cadw.

Hwn oedd y project cyntaf i'w wireddu o dan y cynllun partneriaeth Cyfoeth Cymru Gyfan. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys gwrthrychau o gyfnod y Llychlynwyr a gafwyd ar safleoedd Oes yr Haearn Llanbedr-goch a Llyn Cerrig Bach ac roedd yn gyfle i arddangos llawer o arteffactau ar yr ynys am y tro cyntaf. Datblygwyd nifer o raglenni addysg a gweithdai mewn cydweithrediad ag AOCC a daeth nifer o ysgolion Ynys Môn a Gwynedd i weld yr arddangosfa.

Serch hynny, un yn unig o blith o nifer o bartneriaethau a ddatblygwyd gan AOCC dros y blynyddoedd yw Cyfoeth Cymru Gyfan. Ceir adroddiad cyflawn am y ffordd yr ydym yn cydweithio ag eraill ym maes diwylliant a threftadaeth ledled Cymru, y DU a'r tu hwnt yn Gweithio mewn Partneriaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003 ac sydd i'w weld yn www.aocc.ac.uk .



Delweddau o ddarn o liain wedi'i frodio a gafwyd o grannog canoloesol Lyn Syfaddan, Powys. Roedd y delweddau hyn, ffrwyth gwaith dadansoddi dwys, yn rhan o arddangosfa *Ail-greu: Delweddu ein Gorffennol*, a agorodd yn Oriel Ynys Môn, Llangefni, ym Mawrth 2002



Cyfoeth Cymru Gyfan
Gweithio gyda Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Working with National Museums & Galleries of Wales
Sharing Treasures

# cenedl o'r newydd

**Adfywiad drwy dreftadaeth, diwylliant a hanes**



Ffotograff gan Ethos

Yn ystod y flwyddyn, chwaraeodd AOCC ran allweddol wrth lansio dwy fenter o bwys i sefydlu Cymru fel cyrchfan i dwristiaid o bedwar ban y byd gyda'i hanes, ei diwylliant a'i hiaith ei hun - sef Partneriaeth Herian a Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru.

Menter adfywio economaidd ar sail treftadaeth ddiwylliannol yw Herian – 'Etifeddiaeth ar Waith' – sy'n cael ei chefnogi gan bartneriaeth eang o awdurdodau lleol yn ne Cymru, cyrff cyhoeddus cenedlaethol fel AOCC a Bwrdd Croeso Cymru (BCC), cyrff gwirfoddol a'r sector preifat. Mae Partneriaeth Herian yn gweithio i fanteisio i'r eithaf ar botensial treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac unigryw de Cymru, a'r cyfleusterau hamdden sydd wedi cael eu creu er budd trigolion ac ymwelwyr, o ran datblygu economaidd a chymdeithasol.

Mae buddsoddiad mwyaf sylweddol ym menter Herian hyd yn hyn ar y gweill ar ddau o safleoedd AOCC ar hyn o bryd – sef datblygiad Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe a Phwll Mawr, Blaenafon. Nod Herian yw elwa ar y datblygiadau hyn a chenhadu neges y manteision posibl ar draws de Cymru. Er mwyn gwireddu hyn, comisiynodd Herian ymgynghorwyr i gynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer Dehongli treftadaeth ddiwylliannol er mwyn galluogi cymunedau yn ne Cymru i ddatblygu a dathlu agweddau ar eu treftadaeth ddiwylliannol, ac wrth wneud hynny, helpu i gynnig profiad cofiadwy o ansawdd uchel i bobl sy'n ymweld â'r rhanbarth.

Mae Herian yn rhan allweddol o'r Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol a lansiwyd gan Fwrdd Croeso Cymru ym Mawrth 2003. Mae'r Strategaeth yn disgrifio swyddogaethau hanfodol AOCC yn nhermau sefydlu pyrth cenedlaethol i dwristiaeth ddiwylliannol a phwyntio twristiaid i gyfeiriad atyniadau twristiaeth eraill. Wrth lunio'r Strategaeth, bu AOCC yn cydweithio'n agos â BCC i sicrhau bod y diwydiant dwristiaeth yn dod yn fwyfwy ymwybodol bod diwylliant, hanes a threftadaeth wrth galon yr hyn sydd gan Gymru i'w chynnig i dwristiaeth y brif ffrwd yng Nghymru.

Creodd y gwaith o baratoi'r Strategaeth gyfle hefyd i ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf priodol i AOCC ehangu manteision mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd ac orielau i'r diwydiant twristiaeth ehangach yng Nghymru.



# codi cenedl

Mae AOCC yn hwyluso buddsoddiad o £40m mewn ardaloedd Amcan Un yng Nghymru…

Mae projectau buddsoddi cyfalaf presennol AOCC yn ymwneud yn bennaf â chyflawni ein Strategaeth Ddiwydiannol - sef ystyried y cysylltiadau rhwng treftadaeth ddiwydiannol ardal benodol, ei hanes cymdeithasol a diwylliannol a'r diwydiannau sydd yno ar hyn o bryd. Mae'r Strategaeth hon yn cynnwys tair amgueddfa bresennol yn ogystal â datblygu'r amgueddfa diwydiant a môr newydd yn Abertawe:

- yn dilyn gwaith ail-ddatblygu ym 1998, mae Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis wedi gweld cynnydd o 600% o ran niferoedd yr ymweliadau ac enillodd wobr 'Naws am Le' Bwrdd Croeso Cymru yn 2002 am greu awyrgylch neilltuol o Gymreig
- mae gwaith datblygu gwerth £7m ar y gweill yn Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru ym Mlaenafon a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn hydref 2003
- bydd Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin, yn ailagor o dan enw newydd yn 2004 ar ôl cwblhau gwaith ailwampio gwerth £1.7m
- diolch i grant gwerth bron i £11m oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri ym mis Gorffennaf 2002, mae AOCC wedi cymryd camau breision i gyfeiriad codi un o amgueddfeydd newydd mwyaf cyffrous Ewrop yng ngorllewin Cymru. Disgwylir i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, sy'n cael ei datblygu ar gost o £30m mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe, gael ei chwblhau yn 2005.

Disgwylir mai £40m fydd cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf yn y Strategaeth Ddiwydiannol, a daw llawer o'r arian hwnnw o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, cronfeydd yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Abertawe - porth i addysg a thwristiaeth yng Nghymru

Ar ôl i Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ym Mae Caerdydd gau ym 1998, bu AOCC yn edrych ar nifer o safleoedd eraill ar gyfer amgueddfa newydd i adrodd hanes diwydiannol Cymru, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i ofyn am sylwadau.

Dewiswyd lleoli'r amgueddfa newydd yn Abertawe am sawl rheswm. Un o'r prif resymau oedd brwdfrydedd yr awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth ag AOCC – y bartneriaeth gyntaf o'i math rhwng awdurdod lleol ac amgueddfa genedlaethol yn y Deyrnas Unedig.

Aeth y bartneriaeth ati i greu cwmni ar y cyd, sef Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA), i gyflawni'r project, ac fe gyrhaeddwyd carreg filltir o bwys pan gyflwynwyd cais Rhan II i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar 15 Ebrill 2002, i'w ystyried gan Ymddiriedolwyr CDL yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2002. Ar 23 Gorffennaf, cyhoeddodd CDL ddyfarniad amodol o £10.699m - sef y grant mwyaf erioed yng Nghymru. Roedd y dyfarniad hwn yn adlewyrchu ymroddiad mawr partneriaid ac arianwyr allweddol y project, ynghyd â safon uchel dros ben y tîm dylunio:

- Penseiri Wilkinson Eyre (Enillwyr Gwobr Pensaernïaeth Stirling y llynedd a'r flwyddyn gynt am Magna a Phont y Mileniwm, Gateshead)
- Land Design Studio (enillwyr Gwobr Adloniant Rhyngweithiol BAFTA)
- Arups (Peirianwyr Sifil ac Adeiladu)
- Davis Langdon & Everest (Syrfëwyr Maint)
- McCann & Partners (Peirianwyr Mecanyddol a Thrydanol).

Caewyd hen Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe (SMIM), oedd yn rhan bwysig o'r cynllun ar gyfer yr amgueddfa newydd, ar 1 Tachwedd 2002. Symudwyd y casgliadau a oedd yno i storfa Dinas a Sir Abertawe yng Nglandŵr ar gyfer gwaith cadwraeth cyn iddynt gael eu harddangos ochr yn ochr â chasgliadau AOCC yn yr amgueddfa newydd.

Ar ôl cael grant CDL, roedd modd i'r tîm fwrw ymlaen â'r gwaith o geisio am grantiau pellach a chafwyd cyllid Amcan Un oddi wrth yr UE (£2.6m), grantiau oddi wrth Awdurdod Datblygu Cymru (£2.5m) a Bwrdd Croeso Cymru (£1.5m), ynghyd â chymorth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Gan fod y project wedi sicrhau'r grantiau ychwanegol hyn a chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd CDL yn ddigon hyderus i wneud cytundeb contractiol ffurfiol ar gyfer y grant ac felly gallai'r gwaith adeiladu ddechrau o

> 'Cymru oedd gwir genedl ddiwydiannol gyntaf y byd. Fe wnaethom ni gyfraniad mawr at don gyntaf y chwyldro diwydiannol. Stori'r cyfraniad hwnnw fydd canolbwynt yr amgueddfa newydd yn Abertawe. Bydd yn denu myfyrwyr, ymwelwyr a theuluoedd o bell ac agos.'
>
> Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog, Cynulliad Cenedlaethol Cymru



‘Bydd hyn yn hwb aruthrol i Abertawe a’r Gorllewin – buddsoddiad cwbl haeddiannol. Bydd economi’r rhanbarth cyfan ar ei ennill a chaiff y bywyd diwylliannol ei gyfoethogi y tu hwnt i eiriau. Mae’r rhai ohonon ni sydd â’u gwreiddiau yn yr ardal yn falch o gael eu cysylltu â’r project.’

Huw Edwards,
Ionawr 2003



ddifrif. Penodwyd Mowlem yn Brif Gontractiwr, a dechreuodd y gwaith ar y safle tua dechrau Ionawr 2003.

Ar 10 Chwefror, gwahoddwyd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, i 'dorri'r dywarchen gyntaf' mewn seremoni ar y safle ac, erbyn diwedd Mawrth, roedd y project yn symud yn ei flaen yn unol â'r gyllideb a'r amserlen a disgwylir i'r amgueddfa agor yn y Gwanwyn 2005.

## Syniadau mawr ar gyfer Pwll Mawr

Agorodd Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru ei drysau i'r cyhoedd ym mis Ebrill 1983. Ers hynny, mae'r cyn-lowyr wedi croesawu dros ddwy filiwn o ymwelwyr i gymryd rhan yn y daith danddaear fyd-enwog.

Bu'r blynyddoedd diwethaf yn rhai eithriadol o gyffrous i Bwll Mawr, gan iddo gael ei dderbyn yn un o Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a bod tref Blaenafon wedi cael ei chydnabod gan UNESCO fel un o Safleoedd Treftadaeth y Byd. Ond y peth mwyaf cyffrous yw'r gwaith ail-ddatblygu gwerth £7m sydd ar y gweill yno ar hyn o bryd, gyda chymorth grantiau a chyllid oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Lloyds TSB a nifer o ymddiriedolaethau a chyrff preifat.

Mae Pwll Mawr yn cael ei adfer i'w hen ogoniant a dylai hyn olygu y bydd gennym bwll glo sy'n haeddu ei le fel Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru. Y syrfëwyr maint, Davis Langdon & Everest, sy'n rheoli'r project ac mae John Weavers wedi'u contractio i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith. Mae'r gwaith ailddatblygu yn cynnwys nifer o brojectau bach a fydd, at ei gilydd, yn golygu bod yr atyniad wedi cael ei ailwampio o dan y ddaear ac ar yr wyneb:

- agorwyd rhan o'r lefelau tanddaear oedd gynt ar gau i'r cyhoedd, gan ganiatáu i ymwelwyr weld tŷ halio newydd
- mae'r safle hanesyddol, y rhan o gwmpas pen y pwll, wedi cael ei adfer. Symudwyd y lamprwm i'r man lle buasai'n wreiddiol a bydd y safle hanesyddol i gyd yn edrych yn fwy naturiol
- bwriedir ehangu'r oriel lofaol sy'n mynd i mewn i ddrifft gwreiddiol ar ochr y bryn, a chaiff cyfleusterau eu gosod yno ar gyfer profiad clyweledol, ynghyd ag arddangosfeydd o offer cloddio modern
- mae tŷ'r ffan ar ben y siafft ac mae'n rheoli ansawdd yr aer o dan y ddaear. Ni fu ar agor i'r cyhoedd cyn hyn ond bwriedir ei agor a rhoi cyfleusterau dehongli yno
- mae adeilad unigryw baddonau pen y pwll yn cael ei adnewyddu a'i ailarddangos. Bydd y cawodydd a'r loceri gwreiddiol yn agored i'r cyhoedd ond rhoddir orielau'r Amgueddfa yn yr adeilad hefyd, gydag arddangosfeydd o hanes diwydiannol a chymdeithasol y diwydiant glo yn ne Cymru
- bydd dau adeilad newydd yn rhan o'r ailddatblygiad hwn. Y cyntaf fydd y Gweithdy Cadwraeth a'r Storfa lle gall y cyhoedd weld y Cadwraethwyr yn gweithio ar eitemau o gasgliadau glofaol cenedlaethol Cymru. Yr ail fydd Adeilad Gweithredu ac Adnoddau. Bydd llefydd astudio ar gael yno ar gyfer unrhyw un a hoffai wneud gwaith ymchwil personol i'r diwydiant glo yng Nghymru.

Bu'r gwaith ailddatblygu ar y gweill ers rhyw ddwy flynedd a disgwylir ei gwblhau erbyn diwedd hydref 2003. Cynhelir dathliad mawr ar gyfer y gymuned leol yng ngwanwyn 2004.

## Creu'r gorau yn y gorllewin

Bu Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Dre-fach Felindre ar gau trwy gydol 2002-03 yn ystod gwaith ailddatblygu gwerth £2m. Mae'r cynllun yn cynnwys gwaith cadwraeth ar adeiladau rhestredig Gradd II y felin, cyfleusterau dehongli modern a gwell cyfleusterau o lawer i ymwelwyr. Cafwyd grantiau oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, cronfeydd Amcan Un ERDF, Ymddiriedolaeth Elusennol SR & PH Southall, Ymddiriedolaeth Elusennol G.C. Gibson, 'the Clothworkers' Foundation' a'r 'Worshipful Company of Weavers' ar gyfer y gwaith.

Dechreuodd y gwaith adeiladu tua diwedd Medi 2002, ond cafwyd nifer o anawsterau annisgwyl oherwydd natur yr adeiladau hanesyddol. Fodd bynnag, llwyddwyd i symud ymlaen yn dda ac mae sawl elfen o'r gwaith wedi cael eu cwblhau. Mae'r hen Weithdy Gwau wedi cael ei adfer i wneud ei waith gwreiddiol ac erbyn hyn mae'n gartref i Felin Teifi, sy'n gwneud gwaith masnachol yn yr Amgueddfa. Codwyd cragen yr Estyniad Gwasanaethau hefyd a llwyddwyd i godi'r injan nwy Tangye i'w chartref newydd. Cwblhawyd y bont gerbydau i'r maes parcio wrth gefn a'r bont gerdded i'r brif fynedfa hefyd.

Wrth wneud y gwaith adeiladu, daeth llawer o wybodaeth archaeolegol newydd i'r golwg am hanes y safle a chaiff hyn ei gynnwys yn y gwaith dehongli. Mae Archaeoleg Cambria wedi cofnodi'r graffiti a ganfuwyd ar y safle a bydd yn cyflwyno papur ar y pwnc i Gynhadledd Flynyddol Cymdeithas Archaeolegwyr Ewrop yn St Petersburg ym mis Medi 2003.

Disgwylir i'r Amgueddfa agor i'r cyhoedd eto yn 2004.

## I'r Cymoedd

Yn ystod y flwyddyn, addawodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gwerth £3.5m o gyllid datblygu cyfalaf i AOCC wrth i fwrw ymlaen â'i gynlluniau i ehangu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw a'i throi'n Ganolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol. Bydd y buddsoddiad hwn yn ychwanegol at £40m y Strategaeth Ddiwydiannol a'r nod yw datblygu cyfleusterau storio sy'n cael eu rheoli'n dda ag ynddynt yr offer priodol a fydd yn cynnig lle ac amodau amgylcheddol priodol ar gyfer cadw a gwarchod ein casgliadau am gyfnod hir.

Bydd hyn yn golygu ei bod gryn dipyn yn haws i bobl weld ein casgliadau cadw, naill ai yn ein hamgueddfeydd ein hunain, mewn partneriaeth ag eraill neu drwy eu cyhoeddi a'u digideiddio. Ar ôl ei chwblhau yn 2007, bydd hyd at 90% o'r lle a ddefnyddir i gadw ac arddangos casgliadau AOCC yn cyrraedd y safonau priodol.



Er mwyn ei hail-godi, mae simnai talcen gorllewinol y Felin yn cael ei chofnodi'n ofalus cyn ei dymchwel



Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, ar safle adeiladu'r amgueddfa newydd yn Abertawe

Prif ddelwedd: Melon Studies

# Llys a Chyngor AOCC

## LLYS Y LLYWODRAETHWYR
(O I Ebrill 2003 i 27 Awst 2003)

### LLYWYDD
Mathew Prichard, CBE, DL, BA (tan Hyd 2002)
Paul E. Loveluck, CBE, JP (o Hyd 2002 ymlaen)

### IS-LYWYDD
Roger G.Thomas OBE, LLB, CCMI (tan Hyd 2002)
Dr Susan J. Davies, BA (o Hyd 2002 ymlaen)

### TRYSORYDD
G.Wyn Howells ACIB

### AELODAU'R CYNGOR NAD YDYNT YN AELODAU O'R LLYS
Mrs A. Carey-Evans (tan Ebrill 2002)
J.W. Evans CBE, MA
Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA
M. A. J. Salter, FCA
Jane Peirson Jones,YH (o Fawrth 2003 ymlaen)

### PENODWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
Dr P.T.Warren CBE, MA
Linda D. Quinn, MSc
C. Malcolm Parry
Yr Athro D Egan (o Ebrill 2003 ymlaen)
H.R.C.Williams (o Ebrill 2003 ymlaen)
Rhiannon Wyn Hughes, MBE (o Ebrilll 2003 ymlaen)
Eirlys Pritchard Jones, BA (tan Fawrth 2003)
Dr Nancy M. Edwards, BA, FSA (tan Fawrth 2003)

### LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
Gwag

### PRIFYSGOL CYMRU
Mair Waldo Thomas
Yr Athro J. King

### CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Y Cynghorydd. D. Parry Jones (tan Fai 2003)
Y Cynghorydd G. Richards (o Fehefin 2003 ymlaen)

### AELODAU SENEDDOL CYMRU
W. Griffiths AS

### PENODWYD GAN Y LLYS
D. Bowen Lewis
Dr W. B.Willott, CB
Dr E.Wyn Lewis (tan Dachwedd 2002)
C. Rowland
H. Mansfield
Yr Athro J. Last, CBE (o Fai 2003 ymlaen)
Dr Iolo ap Gwynn (o Fai 2003 ymlaen)

### CYNRYCHIOLWYR YR AWDURDODAU LLEOL
Y Cynghorydd J.G. Jenkins
Y Cynghorydd R.W. Hughes
Y Cynghorydd P. G. Larsen
Y Cynghorydd P. M.Thomas
Dr C. Grace
Y Cynghorydd R. Francis-Davies
Y Cynghorydd D. Rogers
Y Cynghorydd J.A.H. Harries
Y Cynghorydd R. Cass
Y Cynghorydd R. H. Poole
Y Cynghorydd J. Huish
Y Cynghorydd D.I. Bowen

### SEFYDLIADAU YNG NGHYMRU
**Cymdeithas Archaeolegol Cambria**
K. Mascetti (bu farw ym Mai 2002)
**Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol**
G.E. Humphreys
**Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
H. Looker
**Cyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru**
Y Cyng. R. Francis-Davies
**TUC Cymru**
A. Wellington
**Cyngor CBI Cymru**
Gwag
**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
M. A. McLaggan
**Cyngor Celfyddydau Cymru**
Cadeirydd
**Bwrdd Croeso Cymru**
J. Jones
**Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru Cyf.**
Gwag
**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Prif Weithredwr
**Cyngor Archaeoleg Prydain**
F. L. Llewelyn
**Ffederasiwn yr Amgueddfeydd ac Orielau yng Nghymru**
Gwag

## Y CYNGOR
(O I Ebrill 2003 i 27 Awst 2003)

### Y LLYWYDD
Mathew Prichard, CBE, DL, BA (tan Hyd 2002)
Paul E. Loveluck, CBE,YH (o Hyd 2002 ymlaen)

### IS-LYWYDD
Roger G.Thomas OBE, LLB, CCMI (tan Hyd 2002)
Dr Susan J. Davies, BA (o Hyd 2002 ymlaen)

### TRYSORYDD
G.Wyn Howells, A.C.I.B.

### PENODWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
Eirlys Pritchard Jones, BA (tan Fawrth 2003)
Dr Nancy M. Edwards, BA, FSA (tan Fawrth 2003)
Dr P.T.Warren, CBE, MA
Yr Athro D. Egan (o Ebrill 2003 ymlaen)
H.R.C.Williams (o Ebrill 2003 ymlaen)
Rhiannon Wyn Hughes, MBE (o I Ebrill 2003)

### PENODWYD GAN LYS Y LLYWODRAETHWYR
D. Bowen Lewis
Dr W. B Willott, C.B.
Dr E.Wyn Lewis (tan Dachwedd 2002)
Yr Athro J. Last, CBE (o Fai 2003 ymlaen)
Dr Iolo ap Gwynn (o Fai 2003 ymlaen)

### PENODWYD GAN Y CYNGOR
Mrs A. Carey-Evans (tan Ebrill 2002)
J.W. Evans CBE, MA
Yr Athro C. L. Jones OBE, F.R.S.A
M. A. J. Salter, FCA
Jane Peirson Jones,YH (o Fawrth 2003 ymlaen)

## BWRDD Y RHEOLWYR
(O I Ebrill 2002 i 27 Awst 2003)
**Cyfarwyddwr Cyffredinol AOCC**
Anna Southall (tan Hyd 2002)
Michael Houlihan (o Ebrill 2003 ymlaen)
**Cyfarwyddwr Ymchwil ac Addysg**
Eurwyn Wiliam (Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro AOCC, Hyd 2002 i Ebrill 2003)
**Cyfarwyddwr Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol**
John Williams-Davies
**Cyfarwyddwr y Celfyddydau a'r Gwyddorau**
Michael Tooby
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
Mark Richards
**Cyfarwyddwr Cyllid a TG**
Jon Sheppard (o Dachwedd 2002 ymlaen)
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol**
Robin Gwyn